



Adroddiad Blynyddol 2019-20

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg wedi ei baratoi yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 19(1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 am y flwyddyn 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020, ynghyd â Thystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru ar 30 Gorffennaf 2020 yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 19 (2) Mesur y Gymraeg.



Cynnwys

Rhan 1	
Adroddiad Strategol	3

Rhan 2	
Atebolrwydd	40

Rhan 3	
Datganiadau Ariannol	67



Yn ôl i'r prif
fynegai

Rhan 1

Adroddiad

strategol

Cipolwg ar y flwyddyn	4
Rhagair	6
Sefyllfa'r Gymraeg yn ehangach	8
Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg	9
i) Gosod dyletswyddau	9
ii) Gweithredu dyletswyddau	11
iii) Gorfodi dyletswyddau	13
Hybu'r Gymraeg	17
i) Dylanwadu ar bolisi	17
ii) Datblygu isadeiledd y Gymraeg	20
iii) Hybu defnydd busnesau ac elusennau o'r Gymraeg	23
iv) Cyfathrebu	25
Rheoli a gweithredu	28
i) Sylwebaeth ar berfformiad ariannol	28
ii) Materion cydraddoldeb	34
Cynlluniau ar gyfer 2020-2021	37
Heriau sy'n wynebu'r sefydliad	38



Yn ôl i fynegai
adran

Cipolwg ar y flwyddyn

Ymateb i 25 o
ymgyngoriadau polisi.



Y Comisiynydd yn siarad
â dros 500 o bobl yn
ystod ei daith gymunedol.



Cyfarfod wyneb yn wyneb
â dros 60 o sefydliadau
cyhoeddus i drafod eu
perfformiad.



Safonau sector iechyd
yn dod i rym ar y 30 Mai,
2019.



#maegenihawl yn cael
2.72 miliwn o argraffiadau
ar wefan Twitter.





Yn ôl i fynegai
adran

Cipolwg ar y flwyddyn



Delio â 78 o bryderon am
wasanaethau anffoddhaol
busnesau ac elusennau.

122 o sefydliadau o dan
safonau'r Gymraeg.



Dros 10,000 wedi chwilio
yn ein Rhestr o Enwau
Lleoedd Safonol ar lein.



Y Comisiynydd wedi
dyfarnu ar 85 ymchwiliad.





Yn ôl i fynegai
adran

Rhagair

Mae'n anodd credu ei bod hi'n flwyddyn ers i mi ddechrau yn y swydd fel Comisiynydd y Gymraeg. Hwn fydd yr adroddiad cyntaf yn adrodd ar fy ngwaith tra mod i wrth y llyw, ac yn sicr bu'n flwyddyn brysur yn dod i adnabod fy swyddogion, sefydliadau cyhoeddus, busnesau, elusennau, gwleidyddion ac eraill.



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Wrth gychwyn yn fy swydd, roeddwn yn awyddus yn y lle cyntaf i geisio deall sefyllfa'r iaith ar draws Cymru. Roeddwn yn gyfarwydd gyda'm cornel i o'r byd yn y gogledd ddwyrain, ond roeddwn eisiau deall yn well beth oedd y realiti yng ngweddill Cymru.

Felly mi es i ar daith o amgylch Cymru yn cyfarfod â thrawsdoriad o'r bobl yr ydym yn gweithio drostynt. O Wynedd i Went, Sir Benfro i Shotton, mi wnes i siarad gyda dros 500 o bobl, mewn 46 o leoliadau.

Ac mi ges i agoriad llygaid. Gwelais fod y Gymraeg yn llithro yn nifer o'r ardaloedd hynny sydd wedi eu hystyried yn gadarnleoedd, gyda'r bobl ifanc yn aml yn troi i siarad Saesneg â'i gilydd. Clywais gan fusnesau, elusennau a sefydliadau eu bod yn cael trafferth recriwtio siaradwyr Cymraeg a deallais o'r newydd bwysigrwydd economi gref i ffyniant a pharhad yr iaith.

Gwelais hefyd fwy nag unwaith fod y Gymraeg yn gallu ffynnu mewn rhai ardaloedd o ganlyniad i frwdfrydedd un neu ddau unigolyn yn hytrach na strwythur ffurfiol. Ar hyn o bryd mae'r bwrlwm sydd ei angen i gynnal iaith ar lawr gwlad yn

dameidiog iawn – gyda'r ardaloedd sydd ag unigolion brwdfrydig yn datblygu a'r gweddill yn cael eu gadael ar ôl.

Mae rheoleiddio yn sicr yn atgyfnerthu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Gallwn ni greu y cyfleoedd drwy reoleiddio yn effeithiol ond mae cyfrifoldeb ar sefydliadau i hyrwyddo a hybu er mwyn annog unigolyn i'w defnyddio. Dyna pam ei bod hi'n hanfodol fod rheoleiddio a hybu defnydd o'r Gymraeg, gennym ni a sefydliadau eraill, yn mynd law yn llaw.

Nid dewis un ar draul y llall sydd ei angen, ond cynllunio strategol er mwyn sicrhau fod y ddau yn cyd-redeg er mwyn rhoi'r siawns gorau i'n hiaith.

Fy mlaenoriaeth i fydd sicrhau ein bod yn parhau i reoleiddio yn effeithiol tra hefyd yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau fod yr iaith yn cael ei chynnal a'i hyrwyddo ym mhob rhan o Gymru.

**“Nyrs dementia,
Edwin Humphreys
gyda Glenda
Roberts, sydd yn
byw gyda dementia.
Cyfrannodd y ddau
i’n hymgyrch yn
amlygu pwysigrwydd
y Gymraeg yn y
sector iechyd.”**





Yn ôl i fynegai
adran

Sefydlfa'r Gymraeg yn ehangach

Arweiniodd y trafodaethau am Brexit at flwyddyn ansicr i'r Gymraeg, â'r gwaith paratoi deddfwriaethol yn cael blaenoriaeth ym Mae Caerdydd.

Roedd ansicrwydd am effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar economi Cymru a sgil effaith hynny ar gymunedau Cymraeg, yn arbennig cymunedau gwledig ac amaethyddol. Roedd hefyd ansicrwydd am ffynonellau grantiau ac ariannu'r dyfodol gan fod nifer o brosiectau hyrwyddo'r Gymraeg wedi derbyn nawdd o gronfeydd strwythurol Ewrop yn y gorffennol.

Mae Llywodraeth Cymru ac eraill wedi datgan na ddylai Cymru dderbyn llai o gyllid o dan y gronfa ffyniant gyffredin a fydd yn disodli'r cronfeydd strwythurol. Bydd angen manteisio ar bob cyfle i sicrhau y bydd y Gymraeg ar ei hennill drwy gefnogi rhaglenni sy'n cynyddu defnydd o'r iaith yn y gymuned ac yn y gweithle a thrwy gefnogi'r sectorau o'r economi sy'n bwysig i'r Gymraeg.

Pasiwyd rheoliadau newydd ar gyfer datblygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg eleni a bydd gan bob awdurdod lleol gynllun newydd 10 mlynedd yn weithredol o 1 Medi 2022 ymlaen.

Dylai hyn arwain at well cynllunio ar gyfer ehangu addysg Gymraeg o'r cyfnod cyn statudol hyd at ôl-16 ac y bydd cynnydd o'r herwydd yn y niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg ar draws Cymru.

Mae'r Gymraeg yn un o feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Mae pryder gan nifer o sefydliadau fodd bynnag, yn cynnwys y Comisiynydd, am y diffyg arweiniad ynghylch sut y bydd y Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgolion Saesneg a fyddai'n golygu nad oes modd cyrraedd targed y Llywodraeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ar ôl cryn waith paratoi a thrafod mae'n ofynnol i gyrff ieuchyd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ers mis Mai 2019. Mae disgwyl hefyd i gyrff gofal sylfaenol weithredu yn unol â dyletswyddau iaith cysylltiedig. Y gobaith yw y bydd y safonau a'r dyletswyddau yn golygu y bydd cleifion yn derbyn rhagor o wasanaethau yn y Gymraeg ac y bydd hyn yn arwain at gynydd mewn gofal ieuchyd yn y Gymraeg yn ogystal. Bydd strategaeth y gweithlu ieuchyd a gofal a gyhoeddwyd eleni yn cyfrannu at hynny gan fod ymrwymiad ynddo i ddatblygu

gweithlu a all ddiwallu anghenion ieuchyd a gofal pobl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddwyd adroddiad ar gefnogi a hybu'r Gymraeg gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad yn haf 2019. Edrychodd y pwyllgor ar lwyddiannau a chyfyngiadau Mesur y Gymraeg 2011 gan asesu os yw'r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg. Wrth wneud hynny casglwyd tystiolaeth hefyd am gynllunio ieithyddol yn rhyngwladol.

Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi penderfynu peidio parhau a'i gynlluniau am Fil y Gymraeg erbyn i'r Pwyllgor adrodd, ac un o brif gasgliadau'r ymchwiliad oedd bod angen i unrhyw gynigion i ddiwygio neu ddisodli Mesur y Gymraeg 2011 yn y dyfodol gael eu hategu gan dystiolaeth eang a dangos sut y byddai newidiadau o'r fath yn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg. Cyflwynodd y Pwyllgor 14 o argymhellion er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith hybu'r Gymraeg.



Yn ôl i fynegai
adran

Hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg Gosod dyletswyddau



Safonau sector iechyd yn dod i
rym ar y 30 Mai, 2019.



Cyfanswm o 122 sefydliad o dan
safonau.



Cyhoeddi Cod Ymarfer cyntaf
ar gyfer Rheoliadau Safonau'r
Gymraeg ¹Rhif 1.



Dyfarnu ar heriau i safonau gan
28 sefydliad.



Cymeradwyo cynllun iaith
Gymraeg am y tro cyntaf i
Swyddfa'r Cabinet.



Cytuno 10 cynllun iaith newydd.

¹ Mae eglurhad o
beth yw 'Safonau'r
Gymraeg' **yma**. Ceir
mwy o wybodaeth am
osod safonau, a dolan
at y Rheoliadau, **yma**



Yn ôl i fynegai
adran

Gosod dyletswyddau

Cod Ymarfer

Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer cyntaf ym mis Chwefror 2020, yn sgil derbyn cydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r cod ymarfer ar gyfer sefydliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1, ac yn cynnig arweiniad iddynt wrth weithredu safonau.

Hawliau iechyd yn dod i rym

Yn dilyn y gwaith o osod safonau'r Gymraeg ar sefydliadau yn y sector iechyd y llynedd, parhaodd y gwaith o gefnogi sefydliadau i ddeall y gofynion a gweithio tuag at gydymffurfio yn ystod mis Ebrill a Mai 2019 cyn i'r safonau cyntaf ddod i rym ar 30 Mai 2019. Digwyddodd hynny drwy swyddogion yn ymateb i ymholiadau ynghylch y gofynion a chyfarfod gyda sefydliadau i drafod y dyletswyddau mewn manylder. Yn dilyn hynny, bu gwaith o ddelio ac ystyried heriau i safonau a dderbyniwyd gan rhai sefydliadau cyn dod i ddyfarniadau er mwyn sicrhau bod y gofynion a osodwyd arnynt yn rhesymol a chymesur iddynt eu gweithredu.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi rheoliadau drafft ar gyfer y cyrff sy'n rheoleiddio'r proffesiynau iechyd.

Y cam nesaf i'r Llywodraeth fydd cyhoeddi'r rheoliadau terfynol fel y gallwn ni wedyn fynd ati i osod safonau ar y cyrff hyn hefyd.

Hysbysiad cydymffurfio i'r Ombwdsmon

Gan fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bellach wedi ei ychwanegu i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, rydym wedi bod yn ymgynghori â nhw ar hysbysiad cydymffurfio drafft. Mae disgwyl y bydd yr hysbysiad cydymffurfio terfynol yn cael ei roi a'r safonau hynny yn dod i rym yn ystod y flwyddyn nesaf.

Sefydliadau'n herio safonau

Dyfarnodd y Comisiynydd ar heriau i safonau wnaed gan 28 sefydliad yn ystod y flwyddyn.

Cytuno 10 cynllun iaith² newydd

Rydym wedi cytuno ar 10 cynllun iaith newydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cynllun Swyddfa'r Cabinet. Dyma'r tro cyntaf erioed i Swyddfa'r Cabinet gael cynllun iaith Gymraeg.

² Nid yw'n bosibl gosod safonau ar bob corff cyhoeddus ar hyn o bryd, megis adrannau San Steffan. Rydym yn parhau i weithio ar gynlluniau iaith o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gyda'r cyrff hynny




Yn ôl i fynegai
adran

Gweithredu dyletswyddau



Arolygu gwasanaethau Cymraeg
66 o sefydliadau.



Arolygu cynnwys adroddiadau
blynyddol safonau'r Gymraeg 88
sefydliad.



Cynnal pum gweithdy ar sut dylai
sefydliadau cyhoeddus annog
pobl i ddefnyddio gwasanaethau
Cymraeg.



Cyhoeddi adroddiad ac
argymhellion i Weinidogion
Cymru ar gofnodi a rhannu
dewis iaith.



Cynnal naw grŵp trafod gyda
grwpiau defnyddwyr amrywiol.



Cyfarfod wyneb yn wyneb â dros
60 o sefydliadau i drafod eu
perfformiad.



Yn ôl i fynegai
adran

Ystyried perfformiad sefydliadau cyhoeddus yn 2018-19

Cafodd y pedwerydd adroddiad sicrwydd³, Hawlio Cyfleoedd, ei gyhoeddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth megis:

- o ystadegau am ba mor aml mae gwasanaethau Cymraeg ar gael
- o beth yw eu hansawdd
- o pa iaith mae pobl yn dymuno ddefnyddio gyda sefydliadau

Yn yr adroddiad, roedd y Comisiynydd yn awgrymu camau gweithredu ymarferol i sefydliadau mewn tri maes, sef trefniadau mewnol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth; cynyddu capasiti'r gweithlu er mwyn gwella'r ddarpariaeth; a chymell pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliodd y Comisiynydd bump gweithdy gyda 108 o swyddogion. Roedd y gweithdai yn canolbwyntio ar sut dylai sefydliadau cyhoeddus hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Cyswllt uniongyrchol â sefydliadau cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfarfodydd adborth unigol gyda dros 60 o sefydliadau, er mwyn dysgu am eu dulliau o gydymffurfio a'u herio i wella perfformiad. Roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar:

- o trefniadau mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth
- o cynyddu capasiti'r gweithlu
- o cymell pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg
- o cynyddu nifer staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfarfodydd hyn i gasglu arferion llwyddiannus i'w rhannu â sefydliadau eraill. Yn ogystal, roedd yn gyfle i sefydliadau drafod pa anawsterau maent yn eu hwynebu, a thrafod dulliau o'u goresgyn.

Monitro cydymffurfiaeth yn 2019 - 20

Er mwyn i ni ddeall ansawdd profiadau a deall lefel cydymffurfiaeth sefydliadau, casglwyd tystiolaeth ymysg sefydliadau sy'n gweithredu safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith a chasglwyd barn y cyhoedd a grwpiau defnyddwyr.

- o Gwiriwyd gwasanaethau sampl o 66 o sefydliadau drwy gyrchu gwasanaethau gohebu, derbynfa, gwefannau, gwasanaethau ffôn
- o Dadansoddwyd adroddiadau blynyddol safonau'r Gymraeg a dogfennau gofynnol eraill ar gyfer holl sefydliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg rhif 1, 2, 4, 5 a 6
- o Cynhaliwyd arolygon thematig yn dadansoddi trefniadau dros 50 o sefydliadau o ran asesu

effaith polisiâu ar y Gymraeg, gweithredu strategaethau hybu'r Gymraeg, asesu gofynion sgiliau Cymraeg wrth recriwtio, a chynnal cyfarfodydd sy'n ymwneud â llesiant unigolion

- o Cynhaliwyd 8 grŵp trafod mewn lleoliadau ledled Cymru gyda grwpiau fel dysgwyr, myfyrwyr, staff sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd.

Adroddiad cofnodi a rhannu dewis iaith

Daethom yn ymwybodol ddwy flynedd yn ôl fod problemau wrth gofnodi a rhannu dewis iaith yn gyffredin i nifer o sefydliadau cyhoeddus. O ganlyniad, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i geisio dod o hyd i ddatrysiadau fel y gallai sefydliadau gofnodi a rhannu dewis iaith yn effeithiol.

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd i drafod y problemau, cyhoeddodd y grŵp eu hadroddiad terfynol mis Medi 2019. Mae'n cynnwys nifer o argymhellion, gan gynnwys rhai i Weinidogion Cymru, er mwyn goresgyn heriau systemig.

Mae'r adroddiad wedi ei groesawu gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ac mae'r Comisiynydd wedi trafod yr argymhellion gyda hi.

³ Mae dolen i Adroddiad Sicrwydd 2019 [yma](#)



Yn ôl i fynegai
adran

Gorfodi dyletswyddau



189 o gwynion dilys wedi eu derbyn: 174 am safonau'r Gymraeg a 15 am gynlluniau iaith.



Agor 65 ymchwiliad.



Dyfarnu ar 85 ymchwiliad.



25% o gwynion dilys am ohebiaeth.



13% o gwynion dilys am alwadau ffon.



Dyfarnu ar un achos Rhyddid i Ddefnyddio'r Gymraeg.

Safonau'r Gymraeg: Cwynion

Nifer ymchwiliadau i gwynion gynhaliwyd gan y Comisiynydd

Ymchwiliadau dal ar agor ers 2018-2019

Ymchwiliadau newydd agorwyd yn 2019-2020

Ymchwiliadau y dyfarnodd y Comisiynydd y dylid eu terfynu⁴ yn ystod 2019 – 2020

Ymchwiliadau ddyfarnwyd arnynt yn 2019-2020

Ymchwiliadau dal ar agor ar ddiwedd 2019-2020

Nifer

79

65

23

85

36

⁴ Ystyr terfynu yw terfynu ymchwiliad o dan adran 72 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dylid nodi y caiff y Comisiynydd derfynu ymchwiliad ar unrhyw adeg.



Yn ôl i fynegai
adran

Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd


Derbyniwyd 174 o gwynion yn ystod
y flwyddyn. O'r rheiny penderfynodd y
Comisiynydd:

- Ymchwilio i 65 ohonynt (37%)
- Defnyddio ei ddisgresiwn i beidio
ymchwilio i 50 (29%) ohonynt
(materion megis dolen ddim
yn gweithio ar wefan, mân wallau
gramadegol ac ati ble roedd y
sefydliad wedi datrys y broblem ar
unwaith)
- Nad oedd yn bosibl agor
ymchwiliad i 59 oherwydd nad
oedd y gŵyn yn creu amheuaeth
o fethiant i gydymffurfio a gofyniad
perthnasol (e.e. safon neu gam
gorfodi safon) (34%)

Dyfarnwyd ar 85 ymchwiliad, gyda
23 ymchwiliad yn cael eu terfynu cyn
cyrraedd dyfarniad.

Agorwyd un ymchwiliad o ddewis y
Comisiynydd.

Dyma gategorïau'r cwynion y dyfarnwyd arnynt



- Gohebiaeth
- Galwadau ffôn
- Gwefannau a gwasanaethau arlein
- Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
- Ystyried effaith polisi ar y Gymraeg
- Cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
- Recriwtio a hyfforddi
- Arwyddion
- Arall (19 safon)



Yn ôl i fynegai
adran

Gosodwyd 220 o gamau gorfodi ar sefydliadau er mwyn delio â methiant i gydymffurfio.

Roedd rhain yn cynnwys

- o camau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt weithredu mewn ffordd benodol
- o cyhoeddusrwydd gan y Comisiynydd
- o cyhoeddusrwydd gan y sefydliad eu hunain
- o rhoi argymhellion
- o rhoi cyngor.

Rydym wedi newid ein trefniadau fel ein bod yn monitro gweithrediad camau gorfodi yn agosach, gan ein bod yn gweld yr un math o gwynion yn codi dro ar ôl tro mewn rhai sefydliadau.

Mae cofrestr o'r ymchwiliadau sydd wedi eu cynnal i'w gweld [yma](#)

Cynlluniau iaith: Cwynion fesul categori

Derbyniwyd 50 cwyn, gyda 15 ohonynt yn ddilys

Categoriâu'r holl gwynion a dderbyniwyd

Gohebiaeth	16
Gwasanaeth Ffôn	9
Gwefannau	9
Ffurflenni	5
Wyneb yn wyneb	2
Arwyddion	2
Cyhoeddiadau	3
Arall	4

Deliodd y Comisiynydd gyda'r rhan fwyaf o'r cwynion hyn yn anffurfiol.

Cyhoeddwyd un adroddiad ymchwiliad yn ystod y flwyddyn. Mae manylion yr ymchwiliadau cynllun iaith sydd wedi eu cynnal i'w gweld [yma](#).

Rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn daethom yn ymwybodol o saith honiad o ymyrraeth i ddefnyddio'r Gymraeg. Dim ond un o'r rhain oedd yn disgyn o fewn diffiniad y Mesur. Yn yr achos hwnnw penderfynodd y Comisiynydd beidio ymchwilio gan fod y sefydliad wedi ymateb yn gadarnhaol i ymholiadau cychwynnol y Comisiynydd.

Yn y chwe achos arall, doedd y person unai heb ei effeithio yn uniongyrchol neu ddim yn dymuno gwneud cwyn swyddogol.

Dyfarnwyd ar un ymchwiliad a agorwyd yn ystod 2018/2019. Dyma grynodedb o'r achos:

Leggett & Platt Automotive

Cysylltodd dau aelod o staff â'r Comisiynydd yn honni fod y cwmni wedi rhoi cyfarwyddyd iddyn nhw beidio siarad Cymraeg o fewn oriau gwaith ar safle Pullmaflex yn Rhydaman.

Penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio i'r mater, a chael cadarnhad gan y cwmni eu bod yn dymuno mai Saesneg oedd iaith y busnes. Dywedodd y cwmni hefyd mai pryderon iechyd a diogelwch a chreu diwylliant cynhwysol oedd y rhesymau tu ôl i'r penderfyniad. Dyfarnodd y Comisiynydd eu bod wedi ymyrryd â rhyddid y gweithwyr i siarad Cymraeg â'i gilydd. Yn anffodus, nid oedd modd eu gorfodi i newid eu polisi ac er eu bod wedi datgan fod croeso i staff siarad Cymraeg yno bellach, bydd ein trafodaethau gyda hwy yn parhau.



**“Y Comisiynydd
gyda chynrychiolwyr
o NSPCC yn
yr Eisteddfod
Genedlaethol yn
Llanrwst.”**



Yn ôl i fynegai
adran

Hybu'r Gymraeg

Dylanwadu ar bolisi



Ymateb i 25 o ymgynghoriadau.



Llythyru â phum awdurdod lleol
yn mynegi pryderon am addysg
statudol ac addysg ôl-16.



Ymateb i chwe ymgynghoriad
ym maes addysg.



Ymateb i saith ymgynghoriad
ym maes iechyd a gofal, gan
gynnwys Strategaeth y
Gweithlu Gofal a Iechyd.



Cyhoeddi canfyddiadau arolwg
oedd yn edrych ar weithdrefnau
awdurdodau cynllunio wrth
ystyried y Gymraeg.



Aelod o grŵp gorchwyl a gorffen
Dementia a'r Gymraeg.



Addysg

Roedd hi'n flwyddyn arwyddocaol ym maes addysg eleni gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyhoeddi yn ogystal â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Buom yn gohebu'n gyson â'r Llywodraeth ynglŷn â'r ddau fater yma, gan ymateb i'r ymgynghoriadau perthnasol.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cynigom y dylid cynnwys targed ar gyfer nifer a chanran y bobl ifanc 15 oed a hŷn sy'n gweithio tuag at gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniwyd y cynnig hwn.

Gwnaethom hefyd ymateb i ymgynghoriadau yn ymwneud â rôl corff arolygu Estyn a'r cwricwlwm newydd, ac ymgynghoriad Cymwysterau Cymru am y cymwysterau newydd fydd eu hangen ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Ceisiwyd ar fwy nag un achlysur i gael eglurhad am sut y bydd y cwricwlwm cenedlaethol yn sicrhau y bydd 50% o blant sy'n gadael ysgolion Saesneg yn siarad Cymraeg erbyn 2050 ond nid ydym wedi derbyn eglurder ar hyn ac mae'n parhau yn fater sy'n achosi pryder inni.

Iechyd

Bu'n flwyddyn brysur ym maes iechyd. Yn bennaf, buom yn ceisio dylanwadu ar ddatblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu.

Ymatebom i ymgynghoriad ar Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal drafft gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Yn y strategaeth derfynol, mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel llinyn euraidd fydd yn cael ei gwau mewn i gynlluniau gweithredu'r strategaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi gweithrediad y strategaeth yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Rydym yn parhau â'r gwaith ar Dementia a'r Gymraeg yn dilyn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym y llynedd ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru, ac yn aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen sydd wedi ei sefydlu i wireddu'r argymhellion.

Fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad ar Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru a llwyddo i ddylanwadu er mwyn sicrhau bod corff Llais y Dinesydd newydd yn cael ei enwi mewn rheoliadau safonau. Golyga hynny y bydd angen iddo weithredu safonau'r Gymraeg o'r cychwyn.

Cynllunio

Yn dilyn anfon holiadur at holl awdurdodau cynllunio i geisio cael darlun clir o'r sefyllfa ar draws Cymru, cyhoeddwyd [canfyddiadau'r arolwg](#) ddiwedd 2019. Y prif negeseuon o'r gwaith oedd bod diffyg cysondeb ym mholisiau cynllunio'r awdurdodau o safbwynt y Gymraeg a bod yr awdurdodau eu hunain yn galw am ganllawiau clir, cenedlaethol ar asesu effaith ar iaith a diffinio ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol.

Rydym wedi rhannu'r canfyddiadau â'r holl awdurdodau cynllunio, Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio ac eraill. Mae cyfarfod wedi ei gynnal â'r Arolygiaeth a byddwn yn parhau i drafod y canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru ac eraill.



Yn ôl i fynegai
adran

Trafnidiaeth

Paratôdd y Comisiynydd gyngor i holl awdurdodau lleol Cymru ystyried effeithiau penderfyniadau polisi darparu cludiant i ddisgyblion ôl-16 i'r ysgol neu fannau dysgu eraill ar y Gymraeg. Anfonodd y Comisiynydd hefyd holiadur i gasglu gwybodaeth am eu harferion a rhannwyd y casgliadau gyda'r Llywodraeth a'r awdurdodau lleol.

Arweiniodd hyn at addewid gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o deithio gan ddysgwyr ôl-16. Rydym wedi ceisio annog y Llywodraeth i ehangu'r adolygiad i ystyried polisiau teithio gan ddysgwyr yn gyffredinol, a hynny er mwyn sicrhau bod y polisiau hyn yn cefnogi strategaeth y Llywodraeth i ehangu'r niferoedd sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg.





Yn ôl i fynegai
adran

Datblygu isadeiledd y Gymraeg



Cydweithio â chwe awdurdod
lleol ar brosiectau safoni enwau
lleoedd.



Dros 10,000 wedi chwilio yn ein
Rhestr Enwau Lleoedd Safonol
ar lein.



Cyhoeddi cyfrol am rôl
Comisiynwyr iaith mewn
cynhadledd ryngwladol yn
Toronto.



Darparu cyngor i Drafnidiaeth
Cymru ar enwau pob gorsaf yng
Nghymru a thu hwnt.



Darparu argymhellion i Gomisiwn
Ffiniau a Democratiaeth Leol
Cymru am enwau wardiau 11
awdurdod lleol.



Cyhoeddi dogfen gyngor ar
drefnu gwaith cyfieithu a
chyfieithu ar y pryd.



Paratoi at Adroddiad 5-mlynedd y Comisiynydd

Rydym wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer adroddiad 5 mlynedd nesaf Comisiynydd y Gymraeg, fydd yn edrych ar sefyllfa'r iaith rhwng 2016 a 2020. Mae'r adroddiad hwn yn ofyniad statudol o dan Fesur y Gymraeg, a'n huchelgais yw creu adroddiad fydd yn gyrru datblygiadau polisi ac yn cyfrannu at y sail tystiolaeth am sefyllfa'r Gymraeg.

Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ym mis Medi 2019 yn holi barn sefydliadau a'r cyhoedd am yr adroddiad diwethaf a beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn yr adroddiad nesaf. Rydym yn parhau i annog pobl i rannu eu barn, eu gwaith ymchwil neu adroddiadau perthnasol â ni fel y gallwn ystyried eu cynnwys yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau Mawrth 2021.

Darparu cyngor ar enwau lleoedd

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynnig argymhellion am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru i'r cyhoedd a sefydliadau o bob math.

Eleni, rydym wedi darparu:

- Argymhellion ar enwau ardaloedd, pentrefi a threfi i chwech awdurdod lleol
- Argymhellion manwl i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar enwau arfaethedig wardiau etholiadol mewn 11 awdurdod lleol
- Cyngor i Drafnidiaeth Cymru ar enwau gorsafoedd trenau yng Nghymru a dros y ffin yn ogystal â chynghor ar sut i ynganu'r enwau hyn
- Argymhellion i asiantaethau mapio rhyngwladol ar enwau Cymraeg llefydd tu allan i Gymru

Mae'r Comisiynydd hefyd yn ceisio dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i enwau lleoedd Cymraeg gan sefydliadau a llunwyr polisi. Cafwyd cyfle i rannu gofidiau a gweledigaeth y Comisiynydd gyda'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu fis Hydref 2019.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid allweddol eraill yn y maes megis y Gymdeithas Enwau Lleoedd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw.

Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith

Rydym yn parhau i fod yn aelod gweithgar o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith, ac Aled Roberts wedi ei enwebu yn Is-Lywydd y Gymdeithas. Mae swyddogion y Comisiynydd yn gyfrifol am drefnu gweminarau a gweithgareddau er mwyn sicrhau bod profiad ac arferion gorau yn cael eu rhannu ymhlith cydweithwyr ar draws y byd.

Uchafbwynt y gwaith eleni oedd lansio ein cyhoeddiad cyntaf ar y cyd yn ystod cynhadledd flynyddol y gymdeithas yn Toronto, Canada. Ein gobaith yw y bydd y gyfrol yn addysgu pobl, gwleidyddion a llunwyr polisi am bwysigrwydd strategol comisiynwyr iaith i warchod a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol a'u siaradwyr.

Mae rhagor o wybodaeth am y gyfrol a gwaith y gymdeithas i'w weld [ar ein gwefan](#).



Yn ôl i fynegai
adran

Cyfieithu a chyfieithu ar y pryd

Cyhoeddwyd dogfen gyngor gennym eleni sy'n cynnig cymorth i sefydliadau wneud defnydd effeithiol a chyfrifol o wasanaethau cyfieithu. Mae wedi ei rhannu'n dair rhan a phob adran yn rhoi sylw i ofynion newydd y safonau a photensial datblygiadau technolegol i gynorthwyo sefydliadau:

- drafftio dwyieithog
- cyfieithu testun a chomisiynu gwaith cyfieithu
- cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog

Mae modd dod o hyd iddi ar [ein gwefan](#).


Rydym yn parhau i fod yn aelod o Gonsortium Astudiaethau Cyfieithu y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Drwy'r Consortium rydym yn cael cyfle i gynghori a dylanwadu ar gynnwys hyfforddiant fel bod cyfieithwyr y dyfodol yn gallu ymateb yn effeithiol i ofynion ac anghenion sefydliadau maes o law.

Dogfen gyngor:

Drafftio dwyieithog, cyfieithu testun a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner





Yn ôl i fynegai
adran

Hybu defnydd busnesau ac elusennau o'r Gymraeg



Cynnal dau ddigwyddiad
rhwydweithio ar gyfer y trydydd
sector.



Cynnal gweminar ar ddefnyddio'r
Gymraeg ar y cyfryngau
cymdeithasol.



146 o sefydliadau wedi
cwbllhau holiadur hunanasesu'r
Comisiynydd.



Trefnu i 90 darn o waith gael
eu prawfddarllen i 68 o gyrff
gwahanol.



Cynnal pum sesiwn hyfforddiant
ar ddefnyddio'r Gymraeg i
sefydliadau yn y sector
gwirfoddol.



Delio â 78 o bryderon am
wasanaethau anfoddhaol
busnesau ac elusennau.



Yn ôl i fynegai
adran

⁵ Nid oes gennym
ni bwerau statudol i
ymchwilio i 'bryder'
am fusnesau ac
elusennau. Er hynny
rydym yn cysylltu
gyda'r sefydliadau
ac yn ceisio cael
datrysiaid i'r achos er
na allwn ni warantu
hynny

Seminar Banciau

Cynhaliwyd un seminar ar gyfer banciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr, gan ganolbwyntio ar lunio apiau dwyieithog a gweld pwysigrwydd y Gymraeg wrth farchnata.

Gwelwyd cynnydd gyda rhai banciau a chymdeithasau adeiladu, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r farchnad. Ond rydym yn siomedig gyda gwasanaethau rhai o'r banciau traddodiadol - rydym yn gweithio'n galed i geisio dylanwadu arnyn nhw. Cyfrannodd y Comisiynydd at ymchwiliad 'Mynediad at Fancio' y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn gobeithio gweld mwy o wasanaethau Cymraeg lleol ar gael i gwsmeriaid dros y flwyddyn nesaf.

Rhwydwaith elusennau

Am y tro cyntaf eleni, cynhaliwyd dwy seminar elusennol, gan ddod a chynrychiolwyr o elusennau yng Nghymru at ei gilydd, er mwyn trafod sut i ddatblygu'r Gymraeg o fewn y trydydd sector. Profodd y seminarau'n ddefnyddiol iawn a chafwyd cyflwyniadau ynddynt gan RNIB Cymru, Macmillan Cymru a Shelter Cymru. Daeth 50 o fynychwyr i'r digwyddiadau o 39 sefydliad gwahanol.

Hyfforddiant i sefydliadau

Cynhaliom pum sesiwn hyfforddiant dwyieithrwydd yn y gwaith, gyda 85% o'r mynychwyr yn nodi fod y rhaglen hyfforddiant yn 'ardderchog'.

Cynhaliwyd gweminar am y tro cyntaf hefyd, un yn Gymraeg ac un yn Saesneg, ar ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Ymunodd 20 o bobl yn y gweminarau.

Prawffddarllen

Rydym yn parhau i gynnig gwasanaeth prawffddarllen hyd at 1,000 o eiriau am ddim i fusnesau ac elusennau. Eleni, derbyniom 90 darn o waith gan 68 o gyrrff gwahanol, gan brawffddarllen cyfanswm o 25,587 o eiriau.

Pryderon⁵

O'r 78 pryder y gwnaethom eu derbyn, roedd 31% ohonynt am wasanaeth Cymraeg banciau, 9.5% am gwmnïau cyfleustodau, 14% manwerthwyr a 45% o sectorau eraill.

Cododd dau achos yn ystod 2020 oedd yn cwestiynu agwedd un o siopau *The Original Factory Shop* tuag at y Gymraeg a'u dealltwriaeth o'i statws. Arweiniodd hyn i ni gysylltu â'r cwmni i gynnig cymorth a syniadau iddynt. Ers hynny, rydym wedi gweithio'n agos â'r cwmni i gynllunio eu darpariaeth Gymraeg, gan gynnwys arwyddion dwyieithog, bathodynau laith Gwaith, negeseuon Cymraeg ar Facebook a dathlu dyddiau arwyddocaol fel Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.

Cynlluniau Hybu

Rydym yn cynnig cynllun hybu, sy'n annog busnesau ac elusennau i weithio gyda ni, ar ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg gyda phwyslais ar geisio cynyddu'r defnydd hwnnw dros amser. Y cam cyntaf yw i'r sefydliad gynnal hunan-asesiad o'i wasanaethau a'i allu. Fe wnaeth 146 gwblhau'r holiadur asesu yn ystod y flwyddyn.

Ymysg y sefydliadau a gytunodd ar gynllun Hybu'r Gymraeg eleni roedd Maes Awyr Caerdydd, Run4Wales, FUW, Oxfam, Cyfreithwyr Watkins and Gunn a Cadwch Cymru'n Daclus.



Yn ôl i fynegai
adran

Cyfathrebu



Y Comisiynydd yn siarad â dros
500 o bobl yn ystod ei daith
gymunedol.



45,070 o nwyddau laith Gwaith
wedi eu dosbarthu.

#MAEGENIHAWL



#maegenihawl yn trendio ar ein
'Diwrnod Hawliau'.



Pecyn addysgol am waith y
Comisiynydd yn cael ei lansio yn
Ysgol Gynradd Brynaman.



#maegenihawl yn cael
2.72 miliwn o argraffiadau.



Stori o'r ymgyrch iechyd yn
ymddangos mewn sawl papur,
gan cynnwys gwefan newyddion
y Guardian.



Taith y Comisiynydd

Trefnodd y tîm cyfathrebu daith i'r Comisiynydd newydd, Aled Roberts, gan ymweld â 46 o grwpiau cymunedol. Roeddent yn amrywio o gôr meibion clwb rygbi, grwpiau rhiant a phlentyn, mentrau cymunedol i ddosbarthiadau cadw'n heini, aelwydydd yr Urdd a grwpiau dysgwyr i enwi dim ond rhai.

Penderfynwyd mai'r ffordd orau o gyrraedd trawstoriad eang o bobl oedd i ni fynd at grwpiau oedd eisoes yn cyfarfod yn hytrach na gwahodd pobl i ddod i siarad â'r Comisiynydd.

Arweiniodd y daith at anerchiad gan y Comisiynydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhannu ei weledigaeth a'i ganfyddiadau, gafodd ei ddarlledu yn fyw dros Facebook Live.

Iechyd

Am wythnos ym mis Medi 2019, cynhaliwyd ymgyrch yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn y sector iechyd.

Rhannodd 20 o bobl, gan gynnwys staff y gwasanaeth iechyd a chleifion, eu profiadau am sut

mae'r Gymraeg wedi gwneud gwahaniaeth iddynt. Dyma'r prif ystadegau:

- o Stori ar wefan y Guardian, gafodd ei rhannu 277 o weithiau
- o Eitemau dyddiol ar Prynawn Da a'r Post Cyntaf a Taro'r Post yn rhoi rhaglen gyfan i drafod y pwnc
- o Eitem estynedig ar Newyddion 9
- o Ymgyrch yn cyrraedd 264,397 o gyfrifon ar Twitter
- o #angenniddewis yn cael dros hanner miliwn o argraffiadau.

Cychwynnodd yr ymgyrch hefyd sgwrs gyhoeddus, gyda dros 50 o bobl yn rhannu eu profiadau nhw o ofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Diwrnod Hawliau

Ar 6 Rhagfyr 2019, cynhaliwyd 'Diwrnod Hawliau' am y tro cyntaf. Diwrnod oedd hwn i'r sefydliadau sydd o dan safonau'r Gymraeg hyrwyddo hawliau'r Gymraeg mewn ffordd glir a syml i'r cyhoedd.

Cymerodd 83 o sefydliadau cyhoeddus ran yn y diwrnod. Roeddem wedi creu pecyn adnoddau iddynt i allu rhestru hawliau yn syml a chlr, gan greu un hashnod canolog i bawb ei

ddefnyddio sef #maegenihawl. Manteisiodd amryw o sefydliadau hefyd ar y diwrnod fel cyfle i atgoffa staff yn fewnol o'r hawliau.

Prif ystadegau Twitter ar gyfer y dydd:

- o #maegenihawl yn trendio trwy'r dydd
- o Cyrhaeddiad negeseuon – 937,158
- o Argraffiadau – 2,724,153
- o 753 o negeseuon wedi eu postio gan 321 o ddefnyddwyr

Bydd hwn nawr yn ddigwyddiad blynyddol, ac yn cael ei gynnal ddechrau mis Rhagfyr.

Pecyn addysgol

Lansiwyd ein pecyn addysgol ar y Diwrnod Hawliau yn Ysgol Gynradd Brynman, yng nghwmni'r Comisiynydd. Pecyn yw hwn yn egluro gwaith y Comisiynydd yn syml i blant cynradd trwy gyfrwng fideo, ond hefyd yn annog y plant i chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu hardal.

Mae'r pecyn ar gael yn adran 'Siarter Iaith' gwefan Hwb, a 2,882 eisoes wedi ymweld â'r dudalen.



Yn ôl i fynegai
adran

laith Gwaith

Un datblygiad cyffrous yw bod gan yr Alban bellach eu fersiwn eu hunain o gynllun laith Gwaith. Buom yn cydweithio yn agos â'r Bòrd na Gàidhlig ar ddyluniad y deunyddiau, gan rannu ein gwaith celf ni â nhw. Maent wedi creu cortynnau gwddf a phosteri i ddechrau, gyda'r gobaith o greu bathodynau hefyd at y dyfodol. Bu'r Comisiynydd yn Glasgow ym mis Hydref i lansio'r cynllun yno.

Yng Nghymru, rydym wedi dosbarthu 23,859 o fathodynau laith Gwaith a 21,211 o gortynnau gwddf yn ystod y flwyddyn.





Yn ôl i fynegai
adran

Rheoli a gweithredu

Sylwebaeth ar berfformiad ariannol

Corfforaeth undyn yw Comisiynydd y Gymraeg a ariennir gan Weinidogion Cymru. Y cyllid a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020 oedd £3,157,000 (2018-19: £3,074,000). Y gwariant net ar ôl llog yn ystod y flwyddyn oedd £3,093,000 (2018-19: £3,137,000), a'r gwariant ar gyfalaf oedd £109,000 (2018-19: £31,000). Ar 31 Mawrth 2020 roedd £502,000 yn y gronfa gyffredinol (31 Mawrth 2019: £438,000).

	2018-19 Aldro £000	2019-20 Aldro £000	2019-20 ¹ Cyllideb £000	2020-21 ² Cyllideb £000
Costau swyddogion	2,262	2,293	2,335	2,418
Gweinyddu				
Llety : Rhent	104	87	84	119
Llety : costau eraill	152	147	142	144
Dadfeiliadau swyddfa	—	5	—	—
Teithio a chynhaliadau	95	80	79	80
Hyfforddiant a recriwtio	23	23	25	20
Cyfreithiol a phroffesiynol	126	131	91	97
Technoleg gwybodaeth	168	153	157	146
Cyfathrebu	20	15	18	15
Archwilwyr allanol	15	15	15	15
Gweinyddu arall	43	22	48	40
	746	678	659	676
Rhaglenni	142	85	77	102
Dibrisiant ac amorteiddiad	33	39	44	82
Gwariant Net	3,183	3,095	3,115	3,278
Incwm	(45)	—	—	—
Llog a dderbyniwyd	(1)	(2)	—	—
Gwariant net ar ôl llog	3,137	3,093	3,115	3,278

¹ Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tim Rheoli ym mis Ebrill 2019

² Cyllideb fewnol derfynol cytunwyd gan y Tim Rheoli ym mis Ebrill 2020



Costau swyddogion

Roedd costau cyflogaeth ar gyfer 2019-20 yn uwch na gwir gostau 2018-19 ond roedd yr alldro ar gyfer y flwyddyn £42,000 yn is na'r gyllideb osodwyd ar gyfer 2019-20 er bod her ariannol o £40,000 wedi ei chynnwys yn y gyllideb. Y prif resymau dros yr amrywiant oedd:

- o Cynlluniwyd cynnydd i gyllideb cyflogaeth 2019-20 oherwydd dwy brif ffactor. Bu newid i gyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 21.1% yn 2018-19 i 28.6% ar gyfartaledd o 1 Ebrill 2019; effaith hyn oedd cynnydd o £105,000 i gostau cyflogaeth y sefydliad.
- o Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu telerau ac amodau cyflogaeth sy'n gyson â rhai Llywodraeth Cymru. Gweithredwyd y setliad tâl y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn; effaith hyn oedd cynnydd o tua £50,000 i gost cyflogaeth.

Er bod her o £40,000 wedi ei gosod roedd tanwariant yn erbyn y gyllideb. Y prif resymau oedd:

- o oedi penderfyniadau i lenwi swyddi daeth yn wag wedi ymddiswyddiadau, hyn oherwydd ansicrwydd cyllidebol dros y tymor canolig;

- o arbedion wrth i swyddogion leihau eu horiau gwaith; a
- o swyddogion yn cymryd cyfnodau mamolaeth o 12 mis lle roedd y gyllideb yn rhagweld eu bod yn dychwelyd ar ôl 9 mis.

O ganlyniad i'r arbedion hyn penderfynwyd ei bod hi'n fforddiadwy i ymestyn swydd cyfnod penodol hyd ddiwedd y flwyddyn.

Mae costau cyflogi swyddogion yn cynrychioli tua 75% o wariant blyneddol y sefydliad. Mae cynnydd blyneddol i'r costau hyn, boed yn gostau pensiwn neu'r setliad tâl, wedi cael effaith ar ein gallu i gyflogi swyddogion i gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau'r sefydliad. Mae hyn i'w weld yn y gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y swyddogion sydd, ar gyfartaledd, wedi eu cyflogi (gweler tudalen 59). Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy, a bydd yn siŵr o gael traweffaith ar allu ac effeithiolrwydd y sefydliad.

Llety

Mae costau rhent gros y swyddfeydd yn gyson â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Roedd disgwyl y byddai costau 2019-20 yn is na'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i negodi cyfnod di-rent o 21/12/2018 i 20/09/2019. Mae'r

cyfnod di-rent hwn wedi dod i ben felly mae disgwyl i gostau rhent gynyddu yn 2020-21.

Bu cynnydd bychan yng nghostau rhedeg y swyddfeydd yn ystod y flwyddyn gan fod:

- o costau gwasanaethau'r landlord ar gyfer swyddfeydd Caernarfon a Chaerfyrddin wedi cynyddu;
- o cost untro ar gyfer swyddfa Caerdydd yn ymwneud â gwaith adnewyddu'r ardal gyffredin;
- o cynnydd mewn costau atgyweirio ac adnewyddu'r swyddfeydd oherwydd rhai elfennau gwaith annisgwyl yng Nghaerdydd a Chaernarfon; a
- o newid i gyfradd ddisgownt Trysorlys EM yn arwain at cynnydd o £5,000 i'r darpariaeth nad oedd modd ei ragweld.

Er gwaethaf cynnydd yn y costau uchod, gwnaed arbedion yn erbyn y gyllideb yn y dreth annomestig yn dilyn asesiad prisio ac ad-daliad. Hefyd roedd costau trydan a nwy yn llai na'r gyllideb gan ein bod wedi gallu rhyddhau costau cronedig yn ymwneud â chyn swyddfa Caernarfon.



Teithio a chynhaliaeth

Roedd costau teithio a chynhaliaeth yn 2018-19 wedi cynyddu i lefel hanesyddol uchel. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol gosodwyd her i arbed £15,000 ar gyfer blwyddyn 2019-20; ac fe'i cyflawnwyd. Mae ymweliadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr yn rhan allweddol o waith y Comisiynydd, gan alluogi swyddogion i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol; parhawyd i gyflawni hyn wrth arbed costau. Mae'r gyllideb ar gyfer 2020-21 wedi'i gosod ar lefel sy'n cyson â 2019-20, er y rhagwelir y bydd effaith cyfyngiadau teithio oherwydd COVID-19 yn cael effaith sylweddol, yn enwedig yn hanner cyntaf y flwyddyn.

Hyfforddiant a recriwtio

Er bod lefelau trosiant staff ar gyfer 2019-20 ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, roedd costau recriwtio yn is na'r gyllideb wrth i benderfyniadau i lenwi swyddi gael eu gohirio tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fyddai mwy o sicrwydd mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21.

Roedd gwariant ar hyfforddiant ychydig yn uwch na'r gyllideb ond cafodd hyn ei wrthbwysu gan arbedion ar gostau seminarau a

chynadleddau. Hefyd, defnyddiwyd yr arbediad ar gostau cynadleddau i alluogi cynnydd yn y gwariant ar y seminar swyddogion a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Comisiynydd newydd.

Cyfreithiol a phroffesiynol

Gall costau cyfreithiol a phroffesiynol amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig o ran costau paratoi ar gyfer ac amddiffyn achosion Tribiwnlys y Gymraeg. Roedd y gwariant ar wasanaethau cyfreithiol yn 2019-20 £15,000 yn uwch nag yn 2018-19 ac hefyd £21,000 yn uwch na'r gyllideb. Gosodwyd cyllideb heriol o £45,000 ar gyfer 2019-20, ac mae gofynion ar gyfer cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag achosion Tribiwnlys wedi arwain at orwariant. Roedd costau cyfreithiol ar gyfer 2018-19 yn cynnwys £26,000 mewn perthynas â gwasanaethau yn ymwneud â phrydlesi swyddfa, lle nad oedd gwariant cyfatebol yn 2019-20.

Roedd costau ymgynghorwyr £12,000 yn fwy na chyllideb 2019-20. Y rheswm am hyn oedd fod cwyn wedi ei gwneud gan Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn erbyn Comisiynydd y Gymraeg (manylion cwyn CES22 ar dudalen 46). Er bod y

Comisiynydd wedi ymateb yn unol â Cham 1 y weithdrefn ar gyfer delio â chwynion yn erbyn sefydliad, gwnaed cais i symud i adolygiad Cam 2. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn awyddus i'r adolygiad hwn gael ei gynnal gan berson annibynnol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y gŵyn yn deillio o benderfyniadau gafodd eu gwneud gan y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd, ac felly roedd yn anodd gwarantu gwrthrychedd pe cynhelid adolygiad mewnol. Penderfynodd y Tîm Rheoli ei bod yn briodol cynnal adolygiad annibynnol o dan yr amgylchiadau. Cynhaliwyd adolygiad i'r ffordd y mae'r Comisiynydd yn arfer ei bwerau ymchwilio a gorfodi ac wrth wneud hynny adolygwyd hefyd draweffaith neu arwyddocâd rhai o benderfyniadau Tribiwnlys y Gymraeg. Penodwyd unigolyn cymwys i wneud y gwaith gan ein bod yn cymryd y gŵyn o ddifri. Cynhaliwyd adolygiad manwl yn y cyfnod rhwng Ionawr 2020 a diwedd Mawrth 2020 a chyhoeddwyd adroddiad yn dilyn hynny. Gellir gweld yr adroddiad ar [wefan y Comisiynydd](#).



Roedd costau cyfieithu £8,000 yn fwy na'r gyllideb, ond dylid nodi y gosodwyd arbediad heriol iawn o £17,000 (38%) ar gyfer cyllideb 2019-20. Canlyniad y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn oedd arbedion blynyddol o £9,000, sef gostyngiad o 20% i'r gwariant. Gosodwyd targed ar gyfer arbedion pellach o £2,000 yn 2020-21.

Mae costau archwilio mewnol wedi gostwng £2,000 yn y flwyddyn gan fod un elfen o gynllun archwilio 2019-20 wedi'i ohirio oherwydd amgylchiadau COVID-19.

Technoleg gwybodaeth

Bu gostyngiad o £4,000 i gostau TG yn erbyn y gyllideb a £15,000 o'i gymharu â'r gwariant yn 2018-19. Nodir y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y costau hyn isod:

- o costau cefnogi gwasanaethau'r we yn llai yn 2019-20;
- o llai o ddatblygu wedi'i gynllunio yn y maes hwn; gan ein bod yn rhagweld newid sylweddol yn 2020-21 gyda'r buddsoddiad TG strategol; a

- rhywfaint o ostyngiad i gostau desg gymorth TG o'i gymharu â'r gyllideb, oherwydd llai o alw.

Yr unig faes ble gwelwyd cynnydd sylweddol oedd gwasanaethau ffôn, sef £3,000 yn fwy na'r gyllideb. Cafwyd effaith blwyddyn lawn o'r newid i'r rhif 0345. Y rheswm arall oedd gwaith hanfodol yn addasu strwythur tra'n uwchraddio swyddfa Caerdydd.

Cyfathrebu

Mae costau cyfathrebu wedi gostwng yn 2019-20 o gymharu â'r gyllideb a 2018-19. Y rheswm am y gostyngiad oedd penderfyniad i beidio ag argraffu fersiwn papur o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2018-19; nid oedd angen cronid y flwyddyn flaenorol ar gyfer y gwasanaeth hwn ac felly fe'i ryddhawyd yn ystod y flwyddyn.

Gwariant Rhaglenni

Mae manylion am ganlyniadau prif raglenni a gyflawnwyd yn 2019-20 yn yr adran ar weithgareddau a chyflawniadau'r sefydliad ar dudalennau 9 i 27.

Oherwydd cyfyngiadau cyllidol roedd y gyllideb ar gyfer rhaglenni yn 2019-20 wedi ei lleihau, fel yn y blynyddoedd blaenorol, i £77,000 sef gostyngiad o 45% o'i gymharu â 2018-19. Mae hyn wedi lleihau nifer ac ystod y rhaglenni roedd modd eu hariannu ymhellach. Caniataodd tanwariant mewn meysydd eraill o'r gyllideb i ailddosbarthu £8,000 yn ychwanegol i raglenni ar gyfer 2019-20.

Roedd rhaglenni 2019-20 yn cynnwys:

- o cyhoeddi Adroddiad Sicrwydd ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg a rhaglen i hyrwyddo'r canfyddiadau;
- o ymchwil i brofiad defnyddwyr o wasanaethau yn y Gymraeg;
- o rhaglenni ymgysylltu â defnyddwyr;
- o rhaglenni hybu i ddatblygu adnoddau gyda busnesau ac elusennau;
- o cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar hawliau defnyddwyr a hyrwyddo laith Gwaith



Yn ôl i fynegai
adran

Cronfa wrth Gefn

Mae cyfrifon blynyddol 2019-20 yn datgan bod £502,000 yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys symiau sy'n dderbyniadwy, yn ddyledus, rhagdaliadau a chroniadau. Er mwyn deall gwir werth y gronfa wrth gefn mae angen ystyried effaith y trafodion hyn:

	£000	Casglu dyledion a thalu credydwy £000	Dibrisiant a gwariant rhagdaliadau £000	Balans yn weddill £000
Asedau sefydlog	152	—	(152)	—
Rhagdaliadau	95	—	(95)	—
Arian parod	740	(485)	—	255
Taliadau masnachol	(89)	89	—	—
Credydwy arall	(39)	39	—	—
Croniadau	(172)	172	—	—
Darpariaethau	(185)	185	—	—
Cronfa wrth gefn	502	—	(247)	255

Lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 yw £255,000 (2018-19: £287,000).

Mae'n hanfodol ystyried lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn yn hytrach na'r gronfa statudol oherwydd dyma'r gwir swm sydd ar gael i'r sefydliad i ddiogelu rhag unrhyw orwariant potensial yn y dyfodol. Wrth wneud yr asesiad yma mae'r Comisiynydd yn ystyried bod angen cadw lleiafswm o 5%

o'r gyllideb flynyddol wrth gefn ar gyfer unrhyw wariant na ellid ei ragweld, tua £160,000. Rydym nawr mewn cyfnod lle mae Tribiwnlys y Gymraeg yn weithredol, ac ystyrir y byddai'n ddarbodus cadw £100,000 yn ychwanegol wrth gefn ar gyfer unrhyw achos cyfreithiol allai godi.

Nodir yn y tabl ar dudalen 28 bod cyllideb 2020-21 yn rhagweld gwariant refeniw o £3,278,000. Yn ogystal â gwariant refeniw mae'r

gyllideb yn cynnwys gwariant o £385,000 ar gyfalaf, yn unol â'r gyllideb dyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer buddsoddiad i uwchraddio isadeiledd, offer a systemau TG y sefydliad.

Effaith cynlluniau 2020-21 yw bydd lefel gwaelodol y gronfa wrth gefn yn cynyddu ychydig o £255,000 ar ddechrau blwyddyn ariannol 2020-21 i £266,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn



Yn ôl i fynegai
adran

gyson â'r swm ystyrir yn ddarvoudus i'w gadw. Mae'r rheolwyr yn disgwyl i'r buddsoddiad yn y systemau TG arwain at arbed i gostau yn dyfodol, er mwyn lliniaru erydiad sydd wedi ei ragweld i'r gronfa wrth gefn yn y blynyddoedd dilynol.

Tâl yr Archwilwyr Allanol

Datgelir taliadau'r archwilwyr yn nodyn 4 i'r cyfrifon. Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd â gwaith nad oedd yn waith archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (2018-19: £0).



Materion cydraddoldeb

Mae'r Comisiynydd yn adrodd ar weithrediad ei gynllun cydraddoldeb cyfredol o fewn ei adroddiad blynyddol.

Mae gwybodaeth am weithrediad polisiâu cydraddoldeb yn y gweithle ar dudalen 51 yr adroddiad.

Digwyddiadau a thaith y Comisiynydd

Ar ddechrau ei gyfnod bu'r Comisiynydd ar daith o amgylch Cymru, ceir manylion pellach ar y daith yng nghrynodeb y Tîm Cyfathrebu. Casglwyd data cydraddoldeb gan unigolion yn ystod y daith.

Mae gan y Comisiynydd asesiad effaith cydraddoldeb canolog i swyddogion ddefnyddio pan maent yn trefnu digwyddiadau. Y bwriad yw, o gael un fersiwn ganolog sydd yn berthnasol i bawb, y bydd digwyddiadau'r Comisiynydd yn cael eu trefnu mewn modd sy'n croesawu amrywiaeth ac yn hygyrch i bawb.

Sicrhawyd bod ein holl ddigwyddiad cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn lleoliadau hygyrch, a gwirio unrhyw anghenion ychwanegol yn y ffurflenni cofrestru.

Monitro

Wrth baratoi Cynllun Gweithredol y Comisiynydd ar gyfer 2020–21 cynhaliwyd 21 asesiad llawn ar raglenni gwaith arfaethedig neu, yn ychwanegol at hynny, adolygwyd asesiadau ar waith oedd yn barhad o waith 2019-2020. Bydd rhai asesiadau pellach yn digwydd yn ystod 2020–21 wrth i raglenni gychwyn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn.

Gwella a dysgu

Bu'r Uwch Swyddog Llywodraethiant mewn cyfarfodydd rhwydwaith cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi dod yn rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru sydd ymysg pethau eraill yn bartneriaeth sydd yn rhannu arfer dda ac adnoddau.

Ym mis Medi 2019 mynychodd y Cyfarwyddwr Strategol a'r Uwch Swyddog Llywodraethiant Seminar Gwireddu Cymru Gydradd wedi ei drefnu gan Archwilio Cymru.

Adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd, fel corff cyhoeddus, adolygu ei amcanion cydraddoldeb o leiaf unwaith bob

pedair blynedd gan gyhoeddi'r camau mae'n bwriadu eu cymryd erbyn 1 Ebrill 2020.

Cydweithiwyd ar amcanion cyffredin gyda 12 corff cyhoeddus arall gyda'r nod o adolygu effaith yn erbyn y cyd-amcanion dros yr hirdymor.

Yn dilyn adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol presennol y partneriaid, y tirlun a'r llenyddiaeth gyfredol, cynhyrchwyd cyfres o bapurau tystiolaeth gan y bartneriaeth ar themâu/materion cyffredin:

- Cynyddu amrywiaeth y gweithlu
- Lleihau bylchau cyflogau
- Ymgysylltu â'r gymuned
- Sicrhau bod caffael yn llywio cydraddoldeb
- Sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion unigol

Ymgysylltu ac ymgynghori

Yn ystod y broses o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar y cyd, cynhaliwyd grwpiau trafod ag unigolion a grwpiau sy'n rhannu 'nodweddion gwarchodedig' a rhai nad ydynt. Cynhaliwyd tri digwyddiad rhanbarthol, ymgynghorwyd arlein a chynhaliodd sefydliadau unigol ddigwyddiadau gyda'u staff eu hunain.



Yn ôl i fynegai
adran

Yn gryno, cytunwyd ar yr amcanion gan 67% o'r ymatebwyr gyda 6% yn nodi nad oeddent yn cytuno, 14% yn nodi eu bod yn cytuno'n rhannol a 13% yn nodi nad oeddent yn sicr a oeddent yn cytuno â'r amcanion.

Materion staff

Cydnabyddiaeth undeb

Mae gan y sefydliad gangen undeb gydnabyddedig o'r PCS, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolwyr y gangen, y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a'r Uwch Swyddog Adnoddau Dynol.

Lles

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwasanaeth cynghori cyfrinachol yn rhad ac am ddim i swyddogion er mwyn eu cefnogi eu iechyd meddwl. Darperir y gwasanaeth hwn gan gontractwyr allanol.

Dysgu a datblygu

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu trefn Rheoli Perfformiad sy'n sicrhau bod swyddogion yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyflawni hynny. Mae trafod anghenion hyfforddi a datblygu yn rhan allweddol o'r drefn ac mae cynllun datblygu'n cael ei lunio ar gyfer pob swyddog ar sail y trafodaethau hynny, yn unol â'r blaenoriaethau hyfforddiant a gytunir yn flynyddol.

Ystyrir yr opsiynau mwyaf cost effeithiol wrth ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu, a chynigir amrywiaeth o ddulliau hyfforddi lle'n ymarferol bosibl.

**“Lansiwyd ein
pecyn addysgol ar
y Diwrnod Hawliau
yn Ysgol Gynradd
Brynaman”**





Cynlluniau ar gyfer 2020-21

Mae gennym gynllun strategol ar gyfer 2018-21. Mae'n cynnwys pedair amcan strategol a blaenoriaethau cysylltiedig. Mae crynodeb isod o gynlluniau gwaith 2020-21, byddwn hefyd yn datblygu cynllun strategol newydd yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'n bosibl y bydd ein cynlluniau ar gyfer 2020/2021 yn cael eu heffeithio gan argyfwng COVID-19

Amcan strategol 1 - Dylanwadu ar bolisi

- Sicrhau ystyriaeth briodol i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth mewn meysydd megis addysg a sgiliau, iechyd a gofal, cynllunio a'r economi.
- Ymchwilio i'r graddau mae gwasanaethau therapi iaith a lleferydd ar gael i siaradwyr Cymraeg a chynnig camau gweithredu.
- Yn dilyn gwaith ymchwil ar gynllunio a'r Gymraeg trafod a chytuno ffordd ymlaen gyda'r Llywodraeth ac awdurdodau cynllunio.
- Llunio nodyn briffio cyn etholiad Senedd Cymru 2021.
- Datblygu a chynhyrchu adroddiad 5-mllynedd ar sefyllfa'r Gymraeg (2016-20).

Amcan strategol 2 – Ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg

- Gosod safonau ar ragor o gyrff, gan gynnwys cyrff rheoleiddio proffesiynau iechyd.
- Addysgu sefydliadau fel eu bod yn deall y gofynion sydd arnynt drwy baratoi rhagor o godau ymarfer.
- Cytuno cynlluniau iaith yn ôl yr angen â chyrff sydd ddim yn ddarostyngedig i safonau.
- Cyfathrebu'n effeithiol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawliau drwy gynnal ymgyrch diwrnod hawliau ac ymgyrch rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Amcan strategol 3 – Sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau

- Gwirio cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau drwy gynnal arolygon a chynhyrchu adroddiad sicrwydd yn crynhoi perfformiad sefydliadau.
- Cynnal arolygon thematig ar safonau llunio polisi ac ar gynllunio sgiliau iaith Gymraeg.
- Cynhyrchu cyfres o ddogfennau cyngor arfer da, gan gynnwys ar hybu defnydd o wasanaethau a recriwtio.

- Gweithredu trefn hygyrch ac effeithiol ar gyfer derbyn cwynion gan ddefnyddwyr drwy wrando ar eu sylwadau a gweithredu arnynt.
- Cynnal adolygiad o draweffaith gwaith gorfodi.

Amcan strategol 4 – Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg

- Datblygu a lansio'r Cynnig Cymraeg, sef cynllun i helpu busnesau ac elusennau i gynllunio a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.
- Blaenoriaethu sectorau busnes allweddol, megis banciau a chwmnïau manwerthu.
- Cynnig cefnogaeth ymarferol i fusnesau ac elusennau ar ddefnyddio'r Gymraeg drwy gyfrwng y cynllun datblygu, hyfforddiant a chymorth prawf ddarllen am ddim.
- Dylanwadu ar ddefnydd cyrff cyhoeddus o ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru.
- Cydweithio â'r Llywodraeth, ymchwilwyr a phrifysgolion i gryfhau'r sail dystiolaeth am y Gymraeg.



Heriau sy'n wynebu'r sefydliad


Wrth i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu, mae'r argyfwng coronafeirws (COVID-19) yn creu heriau cymdeithasol ac economaidd nas gwelwyd o'r blaen ac yn creu straen sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal. Mae'r sefyllfa'n datblygu'n ddyddiol, ond yr hyn sy'n amlwg i bob rhan o'r sector gyhoeddus yng Nghymru erbyn hyn yw'r ansicrwydd sy'n bodoli wrth geisio cynllunio rhaglenni gwaith ac adnoddau i'r dyfodol.

Mae sefyllfa COVID-19 wedi golygu newid ffyrdd o weithio dros dro am gyfnod amhenodol ac yn golygu y bydd angen bod yn hyblyg ac ystwyth wrth weithredu ein cynlluniau gwaith dros y flwyddyn i ddod. Mae'n creu ansicrwydd ynghylch amserlen rhai elfennau o'n gwaith wrth i gyfyngiadau teithio a chadw pellter cymdeithasol ddod i rym ac yn golygu y bydd angen i ni ddatblygu cynlluniau amgen mewn rhai meysydd. Yn anorfod, bydd gweithredu rhai prosiectau yn ystod misoedd cyntaf blwyddyn ariannol 2020-21 yn fwy heriol yn sgil yr argyfwng.

Mae sefyllfa COVID-19 hefyd yn creu ansicrwydd mewn perthynas â chyllideb y blynyddoedd i ddod. Gwelwyd eisoes Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn arall gyfeirio adnoddau i gefnogi'r economi a'r sector iechyd drwy'r argyfwng. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wariant brys fydd yn creu diffyg cyllidebol llawer uwch mae'n debyg na'r hyn ddilynodd yr argyfwng ariannol yn 2008. Y tebygolrwydd felly yw y bydd hyn yn arwain at barhad yn y cynni cyllidol a welwyd dros y degawd diwethaf. Mae hynny'n creu sefyllfa arbennig o heriol wrth i ni geisio gweithredu ein cynlluniau i reoleiddio a hybu'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i arloesi a gweithio mewn ffyrdd effeithiol ac effeithlon, ond bydd angen cefnogaeth a buddsoddiad ariannol hefyd er mwyn i ni allu cyflawni ein rhaglenni gwaith yn llawn. Mae'r her i adnoddau'r Comisiynydd yn debygol o gynyddu hefyd wrth i holl rymoedd a swyddogaethau'r drefn safonau gael eu defnyddio ac wrth i gyrff ac unigolion herio penderfyniadau'r Comisiynydd yn sgil hynny.

Yn ogystal â hynny, bydd her i sicrhau bod y Gymraeg yn derbyn ystyriaeth briodol yn ystod yr argyfwng ac yn y cyfnod yn dilyn hynny. Rhaid cydnabod wrth gwrs bydd nifer fawr o ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen o dan bwysau aruthrol i ymdopi yn ystod cyfnodau gwaethaf yr argyfwng. Ond i nifer fawr o siaradwyr Cymraeg, bydd gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf yn hanfodol bwysig - yn arbennig os ydynt yn fregus. Yr her i ni fydd sicrhau bod darparwyr yn deall sut gall gweithredu safonau'r Gymraeg atgyfnerthu eu gallu i gynnig gwasanaethau effeithiol o'r ansawdd uchaf.

Mae'r argyfwng wedi arwain at adolygu blaenoriaethau deddfu yn Senedd Cymru am y cyfnod nesaf a blaenoriaethau'r Llywodraeth wrth baratoi is-ddeddfwriaeth. Yn sgil hynny mae risg i'r rhaglen gosod safonau. Mae cyfnod ymgynghori ar reoliadau safonau drafft i reoleiddwyr iechyd wedi ei ymestyn ac nid oes sicrwydd ynghylch amserlen unrhyw reoliadau pellach yn dilyn hynny.



“ (COVID-19) yn creu heriau cymdeithasol ac economaidd nas gwelwyd o'r blaen ac yn creu straen sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal..”



Yn ôl i'r prif
fynegai

Tudalen

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol	41
Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff	51
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	62
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	63

Rhan 2 Atebolrwydd





Adroddiad a Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2019-20

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb personol am drefnu, rheoli a staffio Comisiynydd y Gymraeg yn gyffredinol. Mae'n rhaid i mi sicrhau bod safon uchel o reolaeth ariannol yn y sefydliad a bod ei systemau a'i weithdrefnau ariannol yn hyrwyddo proses effeithlon a darbodus o gynnal busnes a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Diben y fframwaith llywodraethu

Nod y fframwaith llywodraethu yw cadw fy annibyniaeth fel Comisiynydd y Gymraeg a chydbwysu'r annibyniaeth honno â'm hatebolrwydd am yr arian cyhoeddus rwyf yn ei wario.

Fel Swyddog Cyfrifyddu rwyf yn atebol i Senedd Cymru, Gweinidogion Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

Diffinnir Comisiynydd y Gymraeg drwy statud fel corfforaeth undyn a chanddo bwerau a chyfrifoldebau sy'n deillio o Ran 2, Mesur y Gymraeg.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n pennu'r ffordd y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei gyfarwyddo ac a ddefnyddir i'w ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith llywodraethu gyda'r nod o reoli risg i lefel resymol.

Mae Datganiad Llywodraethiant parhaol Comisiynydd y Gymraeg i'w gael ar y wefan gorfforaethol.

Llywodraethiant y sefydliad

Cynllunio strategol ac adolygu perfformiad.

Mae gan y Comisiynydd Gynllun Strategol ar gyfer 2018–21 a Chynllun Gweithredol manwl sy'n cael ei lunio ar gyfer pob blwyddyn. Datblygwyd Cynllun Gweithredol 2019-20 gyda chyfraniad Uwch Swyddogion y Comisiynydd drwy drafodaethau mewnol.

Cyflawnwyd mwyafrif helaeth gweithgareddau allweddol 2019-20 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a adroddir arnynt yn yr adroddiad strategol ar dudalennau 9 i 35.

Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol ag adrannau 12 a 13 y Mesur, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg benodi dirprwy Gomisiynydd. Bydd y Dirprwy Gomisiynydd yn dirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau gwyliau a salwch ac ar unrhyw adeg arall ar gais Comisiynydd y Gymraeg. Mae Gwenith Price, Cyfarwyddwr Strategol, yn parhau fel Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ers ei thrydydd penodiad ym mis Hydref 2017.

Tîm Rheoli

Mae'r Tîm Rheoli, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd ac yn cynnwys y ddau Gyfarwyddwr, yn rheoli holl swyddogaethau a gweithgareddau'r Comisiynydd. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am arwain, cytuno a chyflawni gweledigaeth strategol y Comisiynydd, polisiau a gwasanaethau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Cafodd cylch gorchwyl y Tîm Rheoli ei adolygu ym mis Hydref 2018.



Yn ôl i fynegai
adran

Roedd aelodaeth y Tîm Rheoli, yn
ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg

Gwenith Price

Cyfarwyddwr Strategol a Dirprwy
Gomisiynydd

Dyfan Sion

Cyfarwyddwr Strategol

Archwilwyr

Paratowyd cynllun archwilio mewnol
2019-20 gan yr archwilwyr mewnol
gan gwmni TIAA ym mis Ebrill
2019 ac fe'i cymeradwywyd gan y
Comisiynydd a'r Pwyllgor Archwilio
a Risg ym mis Mehefin 2019.

Yn unol ag Atodlen 1 Rhan 5 o'r
Mesur, Archwilydd Cyffredinol
Cymru sydd yn gyfrifol am archwilio
cyfrifon y Comisiynydd.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n
gyfrifol am ddarparu cyngor a
sicrwydd annibynnol i'r Swyddog
Cyfrifyddu a'r Tîm Rheoli ar
ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd
rheolaeth fewnol a rheoli risg.
Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor
Archwilio a Risg wedi ei gyhoeddi ar
wefan y Comisiynydd. Mae'r pwyllgor
archwilio yn cyflwyno adroddiad
blynyddol i'r Comisiynydd yn crynhoi
gwaith y pwyllgor ac yn datgan barn
am reolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae yna bedwar aelod annibynnol
ar y pwyllgor; ac mae trefn mewn lle
sy'n caniatáu i aelodau ymddeol ar
wahanol adegau er mwyn sicrhau
parhad profiad a gwybodaeth.
Daeth cyfnod Rheon Tomos fel
aelod o'r pwyllgor i ben ym mis
Mehefin 2019 a phenodwyd Mair
Gwynant ym mis Mawrth 2020 am
gyfnod o dair blynedd.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg
dair gwaith yn ystod y flwyddyn
ariannol 2019-20. Dyma fanylion
presenoldeb:

	19/06/2019	25/09/2019	18/12/2019	25/03/2020
Dr Ian Rees (Cadeirydd)	✓	✓	✓	Wedi ei ohirio
Rheon Tomos	✓			
Iorwen Brooks Jones	✓	✓	✓	Wedi ei ohirio
Liz Aitken	✓	✓	✓	Wedi ei ohirio
Mair Gwynant				Wedi ei ohirio



Yn ôl i fynegai
adran

Gohiriwyd cyfarfod y Pwyllgor ar 25 Mawrth 2020 ac fe adolygodd y Pwyllgor bapurau'r cyfarfod arlein gan ddarparu sylwadau ac ymholiadau i Swyddogion ymateb iddynt.

Fel rhan o'r cylch gwaith mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad cyllid ac adroddiad cynnydd chwarterol ar y Cynllun Gweithredol, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli. Mae'r Tîm Rheoli a'r Rheolwr Risg yn mynychu pob un o gyfarfodydd y pwyllgor; ac yn ogystal, mae cynrychiolwyr o'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu gwahodd i fynychu.

Mae sesiynau briffio a hyfforddiant ar faterion perthnasol ar gyfer yr aelodau yn cael eu cynnal o flaen cyfarfodydd llawn y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Comisiynydd, yn ogystal â'r cyfarfodydd preifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol.

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

Yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg Banel Cynghori. Penodir aelodau'r Panel Cynghori gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd. Ar 24 Chwefror 2020 penodwyd Anne

Davies a Nia Elias fel aelodau o'r Panel yn dilyn proses recriwtio agored gan Lywodraeth Cymru.

Caiff y Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ynghylch unrhyw fater. Mae cylch gwaith y Panel Cynghori i'w weld ar [ein gwefan](#).

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Panel Cynghori yn ystod y flwyddyn.

Gohiriwyd gyfarfod Mawrth 2020 o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Dyma fanylion presenoldeb:

	10/06/2019	07/10/2019	20/03/2020
Meinir Davies (Cadeirydd)	✓	✓	Wedi ei ohirio
Nick Speed	✓	✓	Wedi ei ohirio
Dr Heledd Iago	✓	✓	Wedi ei ohirio
Anne Davies			Wedi ei ohirio
Nia Elias			Wedi ei ohirio



Cofrestr buddiannau

Caiff y gofrestr buddiannau ei diweddarau ddwywaith yn flwyddyn; yn ogystal â'r broses ffurfiol gofynnir i aelodau o'r Tîm Rheoli, y Panel Ymchwilio a Gorfodi, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Panel Cynghori gofnodi unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfodydd.

Ni chafwyd trafodion materol perthnasol yn ystod y flwyddyn â sefydliadau lle roedd y Comisiynydd, y cyfarwyddwyr neu'r uwch swyddogion, nac unrhyw aelodau o'u teuluoedd, mewn swyddi dylanwadol. Ceir gwybodaeth am fuddiannau'r Tîm Rheoli ar wefan y Comisiynydd.

Effaith COVID-19

Mae trafodaeth am yr heriau fydd yn wynebu'r sefydliad yn y misoedd nesaf wrth ddelio gyda goblygiadau

COVID-19 ar ddiwedd Rhan 1 o'r adroddiad ar dudalen 33. Ond fe wnaeth yr argyfwng COVID-19 a'r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil hynny effeithio ar wythnosau olaf y cyfnod adrodd hefyd. Yn ystod mis Mawrth 2020 wrth i'r argyfwng waethygu, fe wnaethom roi nifer o drefniadau rheoli mewn lle er mwyn caniatáu i fusnes y sefydliad barhau wrth i swyddogion weithio o adref. Roedd hynny'n cynnwys datblygu ac ehangu ein systemau technoleg er mwyn sicrhau bod ein holl staff yn gallu cael mynediad o adref; addasu a diweddarau ein prosesau cyllid i sicrhau ein bod yn gallu codi archebion a gwneud taliadau o bell; rhoi ein cynlluniau parhad busnes ar waith; a datblygu a gweithredu polisi gweithio o adref i staff. Rydym hefyd wedi rhoi trefniadau mewn lle i sicrhau bod ein cyfarfodydd llywodraethiant a chynllunio yn gallu parhau o bell dros fideo.

O safbwynt y cynllun archwilio mewnol blynyddol, ni chwblhawyd un elfen o'r gwaith, sef adolygiad o gynllunio'r prosiect TG, yn sgil yr argyfwng. Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r archwilywyr ynghylch yr effaith ar y cynllun archwilio mewnol; mae'r gwaith TG wedi ei gynnwys yn rhaglen waith 2020-21 ac mae cynigion pellach wedi eu gwneud i ymateb i newidiadau i'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol yn sgil argyfwng COVID-19.

Rydym wedi cael trafodaeth fewnol ar effaith yr argyfwng ar ein risgiau corfforaethol ac wedi ychwanegu risg penodol am COVID-19 i'r gofrestr risg strategol. Bydd disgwyl hefyd i reolwyr ystyried effaith yr argyfwng ar eu cynlluniau risg gweithredol.



Mae delio â'r argyfwng Covid-19 a rhoi yr holl drefniadau angenrheidiol ar waith mewn cyfnod byr o amser wedi bod yn heriol, ond wrth wneud hynny rydym wedi gallu osgoi unrhyw broblemau llywodraethiant a rheolaeth fewnol sylweddol.

Rhyddid gwybodaeth

Derbyniwyd 36 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ystod y flwyddyn (2018-19: 17 cais). Mae ymatebion y Comisiynydd i geisiadau, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ryddhawyd, wedi eu cyhoeddi ar y wefan.

Bu un cais am adolygiad mewnol o benderfyniad y Comisiynydd i rhyddhau gwybodaeth, mae'r mater hwn yn parhau dan ystyriaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn yr achos hwn roedd y Comisiynydd wedi nodi adran 12 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan y byddai'n mynd y tu hwnt i'r trothwy o 18 awr o waith. Bu i'r adolygiad mewnol gynnal y penderfyniad gwreiddiol. Cyflwynodd y ceisydd gŵyn wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Wrth ddarparu ymateb i'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y mater hwn penderfynodd y Comisiynydd

ailystyried y cais hwn a darparu peth o'r wybodaeth i'w ceisydd. Mae'r mater hwn yn gysylltiedig â chwyn yn erbyn y sefydliad, CES20, ceir manylion y gŵyn yn yr adran honno isod.

Diogelu Data

Derbyniwyd 1 cais gwrthrych am wybodaeth o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ystod y flwyddyn (2018-19: 0 cais).

Yn ystod y flwyddyn mae'r Comisiynydd wedi parhau i weithio tuag at sicrhau cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth diogelu data gan gynnwys Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 a'r Deddf Diogelu Data 2018.

Yn flynyddol bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw a bod gwybodaeth bersonol unigolion yn cael ei brosesu ar gyfer pwrpas y prosesu, ar y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu, a bod cyfnodau cadw a manylion technegol y sefydliad yn cael eu cynnal gan fesurau diogelwch addas.

Yn ystod y flwyddyn profwyd proses y Comisiynydd o ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth. Yn dilyn cwyn at Swyddfa Comisiynydd y Gwybodaeth darparwyd cyngor i'r Comisiynydd ar sut i wirio hunaniaeth unigolyn a hefyd sut i ddelio â cheisiadau i gyfyngu ar brosesu data unigolyn. Ymgorfforwyd y cyngor hwn i brosesau a pholisïau'r Comisiynydd.

Cafwyd adroddiad archwilio mewnol ar y maes hwn hefyd a darparwyd argymhellion i'r Comisiynydd. Mewn ymateb i argymhellion yr archwiliad cynhaliwyd hyfforddiant adolygu ar ddiogelu data a phrosesu data ym mis Chwefror 2020.

Cwynion yn erbyn y sefydliad

Mae gennym weithdrefn gwyno benodol os bydd unigolyn am gwyno am weithredoedd neu anweithiau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Ceir copi o'r weithdrefn hon ar ein gwefan.

Derbyniwyd pedair cwyn yn erbyn y sefydliad a ystyriwyd o dan cam 2 y weithdrefn yn ystod 2019-20 (2018-19: 0 cwyn).



CES18

Derbyniwyd cwyn am yr oedi wrth i'r Comisiynydd benderfynu p'un a fyddai'n ymchwilio i gŵyn ynglŷn â methiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Yn yr achos hwn yn dilyn ymchwilio, dyfarnwyd bod y Comisiynydd wedi dilyn ei broses delio â chwynion a chynnal ymchwiliadau yn briodol. Ond, nododd y swyddog ymchwilio y byddai cadw mewn cyswllt gyda'r unigolyn yn fwy rheolaidd wedi bod yn arfer dda yn yr achos hwn.

CES20

Roedd dwy elfen i'r gŵyn hon. Un oedd adolygu penderfyniad y Comisiynydd i rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid gwybodaeth 2000 i'r ceisydd (gweler fanylion pellach yn yr adran honno uchod). Yr ail elfen oedd anfodlonrwydd yr unigolyn nad oedd y Comisiynydd yn cyhoeddi cylch gorchwyl ymchwiliadau ar ei wefan a'r dehongliad o 'berson a chanddo fuddiant'.

Ar sail yr wybodaeth a ystyriwyd, daeth y swyddog ymchwilio i'r penderfyniad nad oedd yn cytuno â'r honiad fod y Comisiynydd yn camweinyddu. Eglurwyd bod y Mesur yn cynnig diffiniad pendant o'r term 'person a chanddo fuddiant' ond nad oes diffiniad o'r term 'person y mae a wnelo'r ymchwiliad â hwy'.

Trefn arferol y Comisiynydd i gyhoeddi'r cylch gorchwyl yw anfon copiâu o'r cylch gorchwyl at D, sef y person yr ymchwilir iddo, ac os yw'r ymchwiliad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93 y Mesur, at y person a wnaeth y gŵyn. Roedd y swyddog ymchwilio o'r farn bod y dehongliad hwn yn un rhesymol.

Cyfeiriwyd y mater at sylw'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan yr achwynydd. Yn dilyn ystyried y mater daeth i'r penderfyniad nad oedd am ymchwilio i'r gŵyn.

CES21

Derbyniwyd cwyn yn honni fod y Comisiynydd wedi methu darparu gwybodaeth i'r achwynydd. Gwybodaeth oedd y Comisiynydd wedi ei gael wrth arfer ei swyddogaethau o gynnal ymchwiliad. Roedd hefyd amheuaeth bod y Comisiynydd wedi cynnal Ymholiad oedd wedi ei wahardd ym Mharagraff 7(4) Mesur y Gymraeg.

Cadarnhaodd y swyddog ymchwilio fod y Comisiynydd yn fodlon gyda'i ddehongliad o adran 22 y Mesur a chyfeiriwyd yr unigolyn at benderfyniad y Tribiwnlys y Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Awst 2017. Aed ymlaen i gadarnhau bod y Comisiynydd yn gweithredu'n

gwbl wrthrychol wrth ymchwilio i gwynion, a hynny yn unol â'r Polisi Gorfodi.

Cadarnhawyd bod y Comisiynydd, ers mis Ebrill 2019, ac yn unol â'r Polisi Gorfodi, wedi addasu rhai trefniadau wrth ddyfarnu ar gwynion a gyflwynir o dan adran 93 y Mesur. Gwnaed hyn i lawn adlewyrchu penderfyniadau sydd wedi eu gwneud mewn dyfarniadau gan Dribiwnlys y Gymraeg ac i alluogi'r Comisiynydd i orfodi'n effeithiol.

CES22

Yn y gŵyn hon honnai Cymdeithas yr Iaith (y Gymdeithas) fod y Comisiynydd yn ymchwilio i lai o gwynion a bod hynny o ganlyniad i gyflwyno arferion cyn ymchwilio newydd. Roeddent hefyd o'r farn bod methiant ar ran y Comisiynydd i ddefnyddio pwerau cosb sifil. Roeddent o'r farn bod y prosesau newydd hyn yn golygu bod cyrff yn llai tebygol o gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg gan eu bod yn gwybod bod y Comisiynydd yn cynnal llai o ymchwiliadau. Penodwyd ymgynghorydd allanol i gynnal adolygiad annibynnol o'r gŵyn. Derbyniwyd adroddiad terfynol, Cam 2, ar 31 Mawrth 2020. Bydd yn cael ei ystyried gan y Comisiynydd a'i rannu gyda'r Gymdeithas. Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad yr ymgynghorydd allanol.



Adrodd ar Gynaliadwyedd a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

O dan y Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi cynllun sy'n egluro'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Bydd yn cael ei adolygu bob tair blynedd ochr yn ochr ag adroddiad sy'n egluro sut mae'r Comisiynydd wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd. Cyhoeddodd y Comisiynydd ei adroddiad cyntaf ym mis Rhagfyr 2019.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Er nad yw Comisiynydd y Gymraeg o dan ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn cydweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ystod 2019-20, cyflwynwyd 14 cais i Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad mewn perthynas â chwyn (3 cais yn 2018-19). Cyflwynwyd 1 apêl gan sefydliad o dan adran 95(2) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd yn dilyn ymchwiliad o dan adran 71 y Mesur (1 apêl yn 2018-19).

O'r rhain, gwrthododd y Tribiwnlys roi caniatâd i 10 cais.

Mae sgil effeithiau yn codi o rai o'r achosion a gynhaliwyd. Bydd penderfyniadau'r tribiwnlys yn cael sgil effaith ar y Comisiynydd wrth iddo ddyfarnu a gwneud penderfyniadau, ar sefydliadau cyhoeddus ac ar achwynwyr fel ei gilydd.

Mae sylwebaeth ar yr achosion pwysicaf fel a ganlyn:

Yn yr achosion hyn (TYG2019/10, TYG2019/11, TYG2019/12) cadarnhaodd y Tribiwnlys bod y Comisiynydd wedi arfer ei farn werthusol yn briodol. Mae pum sail bwysig yn y dyfarniadau hyn sydd bellach yn rhan o gyfres o ffactorau gaiff eu defnyddio gan y Comisiynydd wrth benderfynu agor ymchwiliad i gŵyn er nid rhain yw'r unig ffactorau a ystyrir:

- o bod sefydliad cyhoeddus eisoes wedi cynnal ymchwiliad i gŵyn debyg yn erbyn y sefydliad, ac wedi derbyn cadarnhad bod camau gweithredu ar waith.
- o bod y sefydliad wedi cydnabod y methiant i gydymffurfio yn yr achos gwnaethpwyd cwyn amdano a naill ai wedi cywiro'r materion neu wedi gwneud ymrwymiad i'w cywiro.

- o bod y sefydliad wedi rhoi sicrwydd y bydd yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- o bod cynnal ymchwiliad, hyd yn oed pe byddai yn arwain at ganfyddiad o fethiant i gydymffurfio, yn ddefnydd a dnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw fudd a fyddai'n deillio i ddefnyddwyr y Gymraeg.
- o na fyddai ymchwiliad yn debygol o arwain at osod camau fyddai'n gofyn i'r sefydliad wneud unrhyw beth sy'n wahanol i'r hyn mae'n ei wneud yn barod.

Bydd y pum ffactor yn rhan o'r ffactorau y bydd y Comisiynydd yn eu hystyried wrth ystyried agor ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn.

TYG2019/01

Yr hyn sydd o bwys yn yr achos hwn yw iddi ddod yn amlwg o bapurau'r achos nad oes gwybodaeth i'r cyhoedd am gyfnodau amser lle bo'r Comisiynydd yn goddef methiant gan gorff cyhoeddus i gwrdd a gofyniad safon yn dilyn gosod camau gorfodi. Traweffaith y dyfarniad yw y bydd y Comisiynydd yn fwy agored mewn achosion yn y dyfodol. Nid bwriad hynny yw dwyn sylw at fethiannau cyrff cyhoeddus ond yn hytrach bod mor dryloyw ag y bo modd gyda defnyddwyr y



Yn ôl i fynegai
adran

Gymraeg. Bydd mwy o wybodaeth yn y pau cyhoeddus am sgil effeithiau camau gorfodi. Bydd y Comisiynydd yn ystyried cyhoeddi cynlluniau gweithredu ar ei wefan.

TYG2019/04

Yn achos TYG2019/04 cadarnhaodd y Tribiwnlys benderfyniad y Llywydd blaenorol i wrthod caniatâd i'r Ceisydd gael gwneud cais i adolygu penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag ymchwilio i gŵyn y Ceisydd, ar y sail:

- o bod y Comisiynydd wedi seilio ei benderfyniad ar sail egwyddorion cyfreithiol cywir.
- o ei fod wedi asesu geiriad y Safonau a gwybodaeth gan y ddwy ochr ac ar ôl ystyried y ffactorau perthnasol yn ofalus, ni ellid dweud bod ei benderfyniad yn afresymegol;
- o ni ystyriwyd unrhyw ffactorau gwallus fel rhan o'r penderfyniad.

Gwrthodwyd dadleuon y Ceisydd a thrwy wneud hynny cadarnheir yr arfer sydd wedi ei fabwysiadu gan y Comisiynydd yn ei Bolisi Gorfodi o wahodd sylwadau gan sefydliadau wrth ystyried agor ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn.

TYG2019/05

Penderfynodd y Tribiwnlys fod y Comisiynydd wedi arfer barn werthusol yn briodol. Mae'r mater yn cadarnhau barn y Comisiynydd nad oes tor safon os yw testun yn ymddangos gyda'i gilydd ac os yw'n bosib ei ddarllen yr un pryd. Traweffaith yr achos yw bod y Comisiynydd yn annhebygol o agor ymchwiliad mewn achosion o'r fath.

TYG2019/13

Mae'r achos hwn yn rhoi sylw i hawl y Comisiynydd i beidio cynnal ymchwiliad, os yw eisoes wedi cymryd camau drwy ei bwerau o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg i newid ymagwedd sefydliad a bod y camau hynny yn cael eu gweithredu. Traweffaith y dyfarniad yw y bydd y Comisiynydd yn rhoi sylw i gamau sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith, fel un ffactor ymysg eraill i'w ystyried, pan yn ystyried agor ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn.

Mae dau o'r achosion, a'r apêl yn parhau yn 2020/21.¹

Mae'r gofrestr camau gorfodi i'w gweld ar wefan y Comisiynydd.

Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsmyrn a Chomisiynwyr

Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Archwilio Cymru i drafod materion strategol a gweithredol. Mae swyddogion yn mynychu rhwydweithiau a chyfarfodydd sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar draws y meysydd cyllid, adnoddau dynol, diogelu data a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r Comisiynydd yn aelod o Banel Cynghori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau yw Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhelir hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd, y rheini yn dychwelyd o gyfnodau absenoldeb estynedig a swyddogion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

¹ TYG201908 a 09
ac TYG2020/02



Yn ôl i fynegai
adran

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r Comisiynydd yn rheoli risg ar ddwy haen Strategol a Gweithredol.

Rydym yn adolygu risgiau strwythuredig fel rhan o'r adolygiadau cynnydd chwarterol ar y cynllun gweithredol. Caiff y risgiau gweithredol allweddol o'r adolygiadau hyn eu hymgorffori i'r Gofrestr Risg Strategol. Yn ogystal, bob 6 mis, mae'r Rheolwr Risg yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau strategol sy'n effeithio ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd; gyda rhain yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Risg Strategol. Yna cynhelir sesiwn adolygu a herio gyda'r Comisiynydd.

Cyflwynir y Gofrestr Risg Strategol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ddwywaith y flwyddyn, yn unol â chylch gwaith y pwyllgor. Mae'r Cofrestrau Risg Gweithredol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg unwaith y flwyddyn.

Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau.

Nodir heriau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad ar dudalen 38.

Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. I ddatblygu a chynnal y system, rwy'n dibynnu ar fewnbwn y Tîm Rheoli, gwaith yr archwilyr mewnol a sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill.

Cymeradwywyd y cynllun archwilio mewnol blynyddol ar gyfer 2019-20 gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Archwiliwyd y meysydd gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn a derbyniwyd adroddiadau arnynt.

Maes

Rheoli Risg – Fframwaith Sicrwydd

Rheolaeth Ariannol Allweddol

Ymchwilio i Gwynion

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Trefniadau Iechyd a Diogelwch

Adroddiad Archwilio Mewnol

Adolygiad Perfformiad

Adroddiad Sicrwydd

Cydymffurfiaeth

Adolygiad Perfformiad

Adroddiad Sicrwydd

Lefel Sicrwydd

Rhesymol

Sylweddol

Sylweddol

Sylweddol

Rhesymol



Yn ôl i fynegai
adran

Mae'r archwilwyr mewnol, TIAA, wedi datgan yn eu hadroddiad blynyddol eu 'bod yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Gomisiynydd y Gymraeg brosesau rheoli risg, rheolaeth gyffredinol a llywodraethu rhesymol ac effeithiol wedi eu sefydlu.'

Yn eu hadroddiadau sicrwydd yn 2019-20 gwnaethpwyd argymhellion ar sut i wneud gwelliannau pellach i'r system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi ymateb i'w hargymhellion ac wedi cytuno ar raglen o welliant parhaus.

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, nid oedd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol oedd angen ei adrodd wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.

Effeithiolrwydd o drefniadau chwythu'r chwiban

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am roi trefniadau mewn lle ar gyfer llywodraethu a gwarchod adnoddau. Mater o arfer da gan gyflogwyr yw gosod gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewnol. Cymeradwywyd Polisi Chwythu'r Chwiban Comisiynydd y Gymraeg gan y Tîm Rheoli ym mis Medi 2018. Mae manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac Aelodau o dîm Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, TIAA, yn cael eu cynnwys yn y polisi fel unigolion y gall swyddogion godi pryderon gyda nhw. Ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn o bryderon dan y polisi chwythu chwiban.

Swyddog Cyfrifyddu
Comisiynydd y Gymraeg



Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff

Cytundebau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn gofyn bod penodiadau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion yn yr adroddiad hwn benodiadau sy'n ben agored. Byddai ymadawiadau cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn derbyn iawndal fel nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddogion Comisiynydd y Gymraeg yn parhau ar amodau a thelerau sy'n cyfateb i amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Dymuniad y Comisiynydd yw parhau â'r un amodau a thelerau.

Telir aelodau'r Panel Cynghori, a benodwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â chyfraddau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Telir aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a benodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar yr un raddfa ag aelodau'r Panel Cynghori.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Rheoli Perfformiad ar gyfer ei holl swyddogion sy'n cyfateb i'r cynllun a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Ni chyplysir taliadau cydnabyddiaeth â pherfformiad ar gyfer swyddogion sydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd, er gall y cynnydd yn rhychwant y tâl gael ei hepgor pan nad yw'r gofynion perfformiad sylfaenol wedi eu bodloni.

Ar y cyfan, cyflogir swyddogion (gan gynnwys uwch swyddogion) i swyddi parhaol. Mae cyfnodau rhybudd yn amrywio o bedair wythnos i dri mis, gan ddibynnu ar lefel gwasanaeth a'i hyd.

Cydraddoldeb yn y gweithle

Mae'r Comisiynydd yn gwrthwynebu'n llwyr unrhyw wahaniaethu uniongyrchol ar ba bynnag sail. Gweithredir prosesau teg a chyson wrth ddewis a dethol swyddogion newydd.

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau ffurflen monitro cyfle cyfartal fel rhan o'r broses ymgeisio. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu cynllun cyfsweliad gwarantedig i unrhyw un sydd ag anabledd, fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac sy'n cyrraedd y gofynion hanfodol ar gyfer y swydd.

Wrth ddefnyddio arferion cyflogaeth teg a gwrthrychol, bydd y Comisiynydd yn sicrhau bod swyddogion yn cael eu trin yn deg a gyda pharch yn y gweithle, ac yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni i'w potensial llawn. Byddai addasiadau rhesymol a/neu hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion a ddaeth yn bobl ag anabledd yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Comisiynydd.



Taliadau Cydnabyddiaeth (*)

(*) Mae'r adran hon yn amodol ar archwiliad

Rhestrir yn yr adrannau sy'n dilyn daliadau cydnabyddiaeth a diddordebau pensiwn y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sydd ag awdurdod neu sy'n gyfrifol am arwain a rheoli prif weithgareddau'r Comisiynydd:

	Cyflog (£000)		¹ Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)		Cyfanswm (£000)	
	2019-20	2018-19	2019-20	2018-19	2019-20	2018-19
Aled Roberts	90-95	—	36,000	—	125-130	—
Meri Huws	—	95-100	—	8,000	—	105-110
Gwenith Price ²	65-70	60-65	25,000	27,000	85-90	90-95
Dyfan Sion	55-60	55-60	24,000	21,000	80-85	75-80

¹ Caiff gwerth y buddion pensiwn ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn* x20) + (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad*) - (cyfraniadau a wneir gan aelod) *ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Caiff gwerth buddion pensiwn ei gyfrifo gan MyCSP, sefydliad sydd yn gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw ddylanwad dros y cyfrifo na'r symiau a adroddwyd. Nid yw hwn yn swm

y mae'r sefydliad wedi ei dalu i swyddog yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau mewn cyflog swyddog, p'un a ydyw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog yn ogystal â ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.

² Mae'r cyfarwyddwr yn derbyn lwfans o 10% o'r cyflog am ddirprwyo i Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfnodau absenoldeb neu ar gais y Comisiynydd.

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, goramser a lwfans cyfrifoldeb pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn wedi ei seilio ar daliadau cronedig gan Gomisiynydd y Gymraeg a gofnodwyd yn y cyfrifon hyn.

Daeth cyfnod Meri Huws fel Comisiynydd y Gymraeg i ben ar 31 Mawrth 2019. Penodwyd Aled Roberts fel Comisiynydd y Gymraeg o 1 Ebrill 2019 ar gytundeb saith mlynedd gan Brif Weinidog Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Atodlen 1 Paragraffau 3(1) a 6(1). Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y



Yn ôl i fynegai
adran

Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Wrth bennu unrhyw gynnydd blynyddol yn nhâl y Comisiynydd, bydd Prif Weinidog Cymru yn ystyried argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB), corff sy'n cynghori Prif Weinidog y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar lefelau tâl y sector cyhoeddus.

Tâl yn seiliedig â pherfformiad

Ni wnaed taliadau yn seiliedig ar berfformiad na thaliadau bonws yn ystod 2019-20 i uwch swyddogion (2018-19: £0).

Buddion mewn da

Mae gwerth ariannol buddion mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac a ystyrir gan Gyllid a Thollau EM yn daliad trethadwy. Ni wnaed buddion mewn da yn ystod 2019-20 i uwch swyddogion (2018-19: £0).

Trefniadau oddi ar y gyflogres

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i unigolion dan drefniadau oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 (2018-19: £0).

Ymgynghorwyr

Gwnaethpwyd taliad o £12,000 (2018-19: £0) i ymgynghorydd i gynnal adolygiad annibynnol i gŵyn yn erbyn y sefydliad (gweler tudalen 30 am fanylion pellach).

Tâl cydnabyddiaeth: amrediad a chanolrif

Gofynnir i gyrff sy'n adrodd ddatgelu amrediad tâl swyddogion a'r berthynas rhwng tâl y swyddog uchaf ei dâl yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Band cyflog (£000) y swyddog uchaf ei dâl (Comisiynydd)	90-95	95-100
Tâl canolrif y gweithlu (£)	36,500	35,750
Cymhareb canolrif tâl y gweithlu â'r swyddog uchaf ei dâl	2.67	2.73
Rhychwant tâl uchaf (ac eithrio'r Comisiynydd)	65,285	64,003
Rhychwant tâl isaf	24,415	13,431

Cyfrifir cyfanswm canolrifol y gydnabyddiaeth drwy ddefnyddio tâl cywerth â llawn amser (cyflog gros) yr holl swyddogion, heb gynnwys y Comisiynydd, a hynny ar y dyddiad adrodd.



Yn ôl i fynegai adran

Enw a theitl	Cyfanswm y pensiwn cronedig a chyfundaliad perthnasol ar oedran ymddeol ar 31/03/20	Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad perthnasol ar oedran ymddeol	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/20	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod 31/03/19	Cynnydd Gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod	Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth
	£000	£000	£000	£000	£000	£100 agosaf
Aled Roberts	0 - 5	0 - 2.5	35	5	23	—
Gwenith Price	25 - 30	0 - 2.5	474	436	15	—
Dyfan Sion	15 - 20	0 - 2.5	236	213	10	—

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Er 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa gydag oedran ymddeol arferol cydradd ag Oedran Pensiwn Statudol yr aelod (neu 65 os yn hŷn). O'r dyddiad hwnnw ymaelododd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y

Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae gan y PGPGS bedair adran: 3 yn darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (**classic, premium** neu **classic plus**) gydag oedran ymddeol arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog holl yrfa (**nuvos**) gydag oedran ymddeol arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu

Pensiynau. Parhaodd aelodau'r PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag **alpha** rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PGPGS pob aelod sydd yn newid i **alpha** yn cael eu 'bancio', gyda buddiannau blaenorol y rhai yn un o'r adrannau cyflog terfynol y PGPGS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar



gyfer swyddogion yn dangos pensiwn adeiladwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o fis Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad 'pwrcasu ariannol' gyda chyfraniad ystyrllon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.60% ac 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Bydd buddion y cynllun **classic** yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer **premium**, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, ni cheir cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae **classic plus** yn gynllun cymysg,

gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras fel **classic**, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif fel **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredydu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau **alpha** yn cronni yn yr un modd â **nuvos** ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o'r darparwr penodedig – Legal & General. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr).

Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer **classic**, **premium** a **classic plus**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu'r Oedran Ymddeol Statudol ar gyfer aelodau **alpha**. (Mae'r symiau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PGPGS neu **alpha** - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog buddiannau yn PGPGS ac **alpha** y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond nodir gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedranau.)

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk



Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir

GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

Rhwymedigaethau pensiwn

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac yn nodyn 1.8 i'r cyfrifon.



Yn ôl i fynegai
adran

Adroddiad staff

Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cyfartalog swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2020 oedd 38 mlwydd oed (2018-19: 37 mlwydd oed).

Crynoir demograffeg rhyw y cyfarwyddwyr a'r swyddogion ar 31 Mawrth 2020 yn y tabl isod:

	31 Mawrth 2020		31 Mawrth 2019	
	Gwryw %	Menyw %	Gwryw %	Menyw %
Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr	66.7%	33.3%	33.3	66.7
Swyddogion eraill	34.1%	65.9%	32.6	67.4
Cyfanswm	36.4%	63.6%	32.7	67.3

Bwlch tâl ar sail rhyw

Crynoir y bwlch tâl ar sail rhyw gweithlu Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2020 yn y tabl isod:

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
Bwlch tâl cymedrig ar sail rhyw	11.5%	-1.4%
Canolrif y bwlch tâl ar sail rhyw	0.0%	0.0%

Mae'r tabl hwn yn dangos bod y bwlch tâl ar sail rhyw rhwng 31 Mawrth 2020 a 31 Mawrth 2019 wedi newid o blaid swyddogion gwrywaidd. Y brif ffactor sydd wedi dylanwadu ar y newid yw penodiad gwryw fel Comisiynydd, sef y swydd â'r tâl uchaf.



Yn ôl i fynegai
adran

Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020 oedd 185.5 (2018-19: 224.0).

O'r diwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch, roedd 46.5% (2018-19: 89%) ohonynt oherwydd absenoldeb tymor byr a 53.5% (2018-19: 11%) oherwydd absenoldeb hirdymor. Diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm.

Mae'r Comisiynydd yn nodi'r rhesymau am absenoldeb drwy salwch ac roedd 40% o'r diwrnodau gwaith a gollwyd am resymau iechyd meddwl (2018-19: 25%). Roedd 80% o'r absenoldebau yn rhai tymor hir a 20% yn absenoldebau tymor byr.

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 4.4 (2018-19: 4.8) a hynny wedi ei seilio ar 42.3¹ aelod o staff cywerth â llawn amser (2018-19: 45.8 ¹). Mae'r cyfartaledd fesul pen yn

agos iawn i'r cyfartaledd arferol yn y sector cyhoeddus, sydd yn 5.

Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2019-20 yn 9.6% (2018-19: 8.6%), (2017-18: 12.6%), (2016-17: 14.5%) a (2015-16: 6.2%).

Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol fel bo angen ei gynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

¹ At bwrpas y datgeliad mae aelodau staff cywerth â llawn amser yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a 41.3 swyddog cywerth â llawn amser (2018-19: 44.8)



Yn ôl i fynegai
adran

Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

	2019-20 £000	2019-20 £000
Cyflogau (cytundebau parhaol)	1,650	1,635
Cyflogau (cytundebau cyfnod penodol)	21	90
Costau nawdd cymdeithasol	151	165
Costau pensiwn	460	364
	2,282	2,254
Ffioedd aelodau o bwyllgorau ⁽¹⁾	6	8
Costau swyddogion drwy asiantaeth	5	—
Cyfanswm	2,293	2,262

Niferoedd swyddogion

	2019-20	2018-19
Comisiynydd y Gymraeg	1.0	1.0
Swyddogion a gyflogir ar gytundebau parhaol	40.3	41.6
Swyddogion a gyflogir ar gytundebau cyfnod penodol	1.0	3.2
Swyddogion drwy asiantaeth	0.2	0.0
Nifer cyfartalog ⁽²⁾	42.5	45.8
Aelodau o bwyllgorau ⁽¹⁾	7.0	7.0

1 – Mae'r aelodau yn cynnwys 3.5 aelod o'r Panel Cyngori (2018-19: 3.0) a 3.5 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2018-19: 4.0) ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Talwyd ffioedd o £256 y dydd i'r Cadeirydd a £198 y dydd i aelodau eraill.

2 – Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.



Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd a uwch swyddogion y Comisiynydd ar dudalennau 51 i 56.

Pensiynau

Ceir manylion pensiynau ar dudalennau 54 i 56.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) ac alpha yn gynlluniau buddiannau diffiniedig heb ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd actiwari'r cynllun werth y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae gwybodaeth ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Civil Superannuation (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2019-20, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £456,000 (2018-19: £357,000) yn daladwy i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth sifil ar un o bedair graddfa rhwng 26.6% a 30.3% (2018-19 : 20.0% i 24.5%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Diwygiwyd y bandiau cyflog a chyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer 2019-20. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan taler y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall swyddogion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef cynllun pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r

cyflogwr o £300 (2018-19: £4,000) i ddarparwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn ddibynol ar oedran ac ar raddfa rhwng 8.0% a 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal roedd cyfraniadau cyflogwr o £15 (2018-19: £170), 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i PGPGS i warchod rhag cost darparu yn y dyfodol am gyfandaliadau buddiant marwolaeth mewn swydd neu ymddeoliad o achos afiechyd y cyfloggeion hyn. Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y adrodd oedd £0. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0.

Ni oes unrhyw berson wedi ymddeol ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn.

A woman with curly blonde hair is smiling and holding a dark green mug with both hands. She is wearing a dark grey t-shirt over a maroon long-sleeved shirt and a necklace with small colorful beads. The background is a blurred outdoor setting with greenery and a building.

**“Cynnig cefnogaeth
ymarferol i fusnesau
ac elusennau ar
ddefnyddio'r
Gymraeg”**



Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddiadau Cyfrifon a roddir, gyda chydysyniad Trysorlys EM, gan Weinidogion Cymru. Llunnir y cyfrifon ar sail gronïadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ac o'r gwariant net, datganiad sefyllfa ariannol, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn arbennig i:

- o ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisiau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;

- o llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- o datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y *Government Financial Reporting Manual*, a datgelu ac esbonio unrhyw wro materol a welir yn y cyfrifon;
- o llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol;
- o cadarnhau bod yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y

mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, *Managing Public Money*, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu gallaf gadarnhau:

- o fy mod wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilywyr Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a
- o hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilywyr yn ymwybodol ohonynt.

Aled Roberts

**Swyddog Cyfrifyddu
Comisiynydd y Gymraeg
22 Gorffennaf 2020**



Yn ôl i fynegai
adran

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd/Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol gan y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2020 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru).

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn am y



Yn ôl i fynegai
adran

datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwiadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad ar ofnyion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- o mae'r wybodaeth a geir yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru; ac
- o mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac fe'i paratowyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Strategol a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- o ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- o nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- o nid yw gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- o nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.



Yn ôl i fynegai
adran

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan y Mesur hwnnw, am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldeb yr archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli.

Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Gorffennaf 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw i gynnal a chadw a sicrhau uniondeb gwefan Comisiynydd y Gymraeg; nid yw gwaith sydd yn cael ei gynnal gan yr archwilydd yn ymwneud ag ystyried y materion hyn, ac o ganlyniad, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers cael eu cyhoeddi gyntaf ar y wefan.





Yn ôl i'r prif
fynegai

Tudalen

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	68
Datganiad Sefyllfa Ariannol	69
Datganiad Llifoedd Arian	70
Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr	71
Nodiadau'r Cyfrifon	72

Rhan 3 Datganiadau Ariannol





Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

	Nodiadau	£000	2019-20 £000	2018-19 £000
Gwariant				
Costau swyddogion	3	2,293		2,262
Gweinyddu	4	678		746
Gwariant rhaglenni eraill	5	85		142
Dibrisiant ac amorteiddiad	6.7	39		33
			3,095	3,183
Incwm			—	(45)
Gwariant net			3,095	3,138
Llog a dderbyniwyd			(2)	(1)
Gwariant net ar ôl llog			3,093	3,137

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 79 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Yn ôl i fynegai
adran

Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2020

	Nodiadau	31 Mawrth 2020 £000	£000	31 Mawrth 2019 £000	£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau anghyffyrddadwy	6	6		10	
Eiddo, offer a pheiriannau	7	146		72	
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol			152		82
Asedau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	8	95		77	
Arian parod ac arian cywerth	9	740		705	
Cyfanswm asedau cyfredol			835		782
Cyfanswm asedau			987		864
Rhwymedigaethau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	10	(300)		(251)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(300)		(251)
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net			687		613
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol					
Darpariaethau	11	(185)		(175)	
Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			(185)		(175)
Asedau llai rhwymedigaethau			502		438
Ecwiti'r trethdalwyr			502		438
Cronfa gyffredinol			502		438

Aled Roberts

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 79 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 68 i 71 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:

Aled Roberts: Swyddog Cyfrifyddu Comisiynydd y Gymraeg 22 Gorffennaf 2020



Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

	Nodiadau	2019-20 £000	2018-19 £000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net		(3,095)	(3,138)
Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy	6	4	4
Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau	7	35	29
Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol		—	—
(Cynnydd) / Lleihad mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill	8	(18)	5
Cynnydd / (Lleihad) mewn taliadau masnach a thaliadau eraill	10	49	(84)
Cynnydd / (Lleihad) mewn darpariaethau	11	10	(13)
(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		(3,015)	(3,197)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		2	1
Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy	6	—	—
Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau	7	(109)	(31)
Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau		—	—
(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi		(107)	(30)
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido			
Cyllido gan Weinidogion Cymru		3,157	3,074
Cyllido net		3,157	3,074
Cynnydd / (Lleihad) net mewn arian parod ac arian cywerth yn y cyfnod		35	(153)
Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod	9	705	858
Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod	9	740	705

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 79 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

	£000
Balans ar 1 Ebrill 2018	501
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2018-19 (Diffyg) a gadwyd	(3,137)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2018-19 Cyllido gan Weinidogion Cymru	(3,137) 3,074
Balans ar 31 Mawrth 2019	438
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2019-20 (Diffyg) a gadwyd	(3,093)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2019-20 Cyllido gan Weinidogion Cymru	(3,093) 3,157
Balans ar 31 Mawrth 2020	502

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 79 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â *Government Financial Reporting Manual* (FReM) 2019-20 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1 Datganiad polisïau cyfrifo

(1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrizio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrizio, ym marn y Comisiynydd, yn berthnasol.

(1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

(1.3) Incwm

Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Mae incwm sydd wedi ei anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

(1.4) Asedau anghyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Nid yw'r asedau sefydlog anghyffyrddadwy wedi eu hailbrizio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrizio yn berthnasol.

Bydd asedau sefydlog anghyffyrddadwy yn cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blyneddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.



Yn ôl i fynegai
adran

(1.5) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Nid yw eiddo, offer a pheiriannau wedi eu hailbrisio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrisio yn berthnasol.

Bydd eiddo, offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

(1.6) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygolrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

(1.7) Treth ar Werth

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Adroddir ar bob gwariant a chyfalaf gan gynnwys TAW, os yw'n berthnasol, gan na ellir adennill TAW.

(1.8) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am pensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff.

(1.9) Buddion cyflogai

Cydnabyddir cyflogau, cyfraniadau yswiriant gwladol, a budd-dal ariannol ac anariannol ar gyfer cyflogaion cyfredol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau cyflogaion gael eu cyflawni. Polisi'r Comisiynydd yw cyfrif am absenoldebau tymor byr a ddigolledir (gwyliau blynyddol taladwy) fel rhwymedigaeth (cost cronedig) lle disgwylir setlo'r iawndal absenoldeb o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cyflogaion yn cyflawni'r gwasanaeth ynddo.

(1.10) Prydlesi gweithredol

Mae rhentolion prydlesi gweithredol wedi eu cyflwyno i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.



2 Gwybodaeth segmentol

Mae gwariant, incwm a llog yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu yng Nghymru ac yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg a gallu personau yng Nghymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond un segment sy'n gweithredu ac fe adlewyrchir hyn yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

3 Costau Swyddogion

	2019-20 £000	2018-19 £000
Swyddogion cyflogedig	2,282	2,254
Ffioedd aelodau o bwyllgorau	6	8
Costau swyddogion drwy asiantaeth	5	–
	2,293	2,262

Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff ar dudalen 59.

4 Gweinyddu

Yr oedd costau gweinyddu yn cynnwys:

	2019-20 £000	2018-19 £000
Llety - Rhent swyddfa	87	104
Llety - Costau eraill	147	152
Darpariaeth ar gyfer addurno a dadfeiliadau swyddfeydd	5	–
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	80	95
Hyfforddiant a recriwtio	23	23
Cyfreithiol a phroffesiynol	131	126
Technoleg gwybodaeth a thelathrebu	153	168
Cyfathrebu	15	20
Gwasanaethau archwilwyr (tâl yr archwiliad allanol)	15	15
Costau gweinyddu eraill	22	43
	678	746



Yn ôl i fynegai
adran

5 Gwariant rhaglenni eraill

Mae'r gwariant yn gysylltiedig â nifer o brosiectau yr ymgwymerwyd â hwy. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn yn £85,000 (2018-19: £142,000); ceir rhagor o fanylion ar dudalen 31.

6 Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

	Trwyddedau meddalwedd £000	Trwyddedau £000	Cyfanswm £000
Cost			
Ar 31 Mawrth 2019	114	43	157
Gwarediadau	—	—	—
Ar 31 Mawrth 2020	114	43	157
Amorteiddiad			
Ar 31 Mawrth 2019	110	37	147
Cost am y flwyddyn	2	2	4
Gwarediadau	—	—	—
Ar 31 Mawrth 2020	112	39	151
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2020	2	4	6
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2019	4	6	10



Yn ôl i fynegai
adran

7 Eiddo, offer a pheiriannau

	Celfi a gosodiadau £000	Offer swyddfa £000	Cyfanswm £000
Cost			
Ar 31 Mawrth 2019	371	358	729
Ychwanegiadau	99	10	109
Gwarediadau	(44)	(4)	(48)
Ar 31 Mawrth 2020	426	364	790
Dibrisiant			
Ar 31 Mawrth 2019	360	297	657
Cost am y flwyddyn	9	26	35
Gwarediadau	(44)	(4)	(48)
Ar 31 Mawrth 2020	325	319	644
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2020	101	45	146
Gwerth net yn y llyfrau ar 31 Mawrth 2019	11	61	72

Mae offer swyddfa yn cynnwys offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Cyllido asedau: Nid oedd gan y Comisiynydd brydlesi cyllidol na chontractau Menter Cyllid Preifat. Eiddo'r Comisiynydd oedd yr holl asedau a ddatgelwyd uchod.

Nid oedd ymrwymadau cyfalaf cyfreithiol ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019: £0).



Yn ôl i fynegai
adran

8 Derbyniadau masnachol ac asedau cyfredol eraill

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

Derbyniadau masnachol
Derbyniadau eraill
Rhagdaliadau

31 Mawrth 2020 £000	31 Mawrth 2019 £000
—	2
—	6
95	69
95	77

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.

9 Arian parod ac arian cywerth

Balans ar 1 Ebrill
Newidiadau net mewn balans arian parod ac arian cywerth
Balans ar 31 Mawrth

2019-20 £000	2018-19 £000
705	858
35	(153)
740	705

Cafodd arian parod y Comisiynydd ei gadw mewn banc masnachol ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ddaliwyd unrhyw arian gan Dâl-feistr Cyffredinol EM ar ddiwedd y flwyddyn.

10 Taliadau masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

Treth arall a nawdd cymdeithasol
Taliadau masnachol
Croniadau

31 Mawrth 2020 £000	31 Mawrth 2019 £000
39	—
89	72
172	179
300	251

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn.



Yn ôl i fynegai
adran

11 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a phridiannau

	Arall	Dadfeiliadau ac ailaddurno	Cyfanswm
	£000	£000	£000
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2019	–	175	175
Darparwyd yn y flwyddyn	5	–	5
Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	–	–	–
Newid i'r gyfradd disgownt	–	5	5
Darpariaeth ar 31 Mawrth 2020	5	180	185

Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio, yn glir o CPI, Trysorlys EM ym mis Rhagfyr 2019, sef -1.48% mewn termau real ar gyfer y dadfeiliadau (2018-19: -0.97%).

Gwneir darpariaethau ar gyfer ail-addurno yn ystod tymor y brydles ac ar gyfer dadfeilio, er mwyn dychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol ar derfyn y brydles. Gall yr ymrwymadau hyn newid yn sgil gwybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai achosi newid i'r symiau a ddarparwyd ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod ariannol. Mae'r darpariaethau hyn wedi eu hadolygu a'u diweddarau yn ystod y flwyddyn fel sy'n ofynnol dan IAS 37.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys costau cyfreithiol mewn perthynas â cheisiadau dan ystyriaeth Tribiwnlys y Gymraeg am adolygiad o benderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg neu apelau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd. Ceir manylion pellach am y ceisiadau hyn ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg.

Dadansoddiad o amseru disgwyliadwy'r rhwymedigaethau

	Arall	Dadfeiliadau ac ailaddurno	Cyfanswm
	£000	£000	£000
O fewn blwyddyn	5	8	13
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	–	33	33
Ar ôl pum mlynedd	–	139	139
	5	180	185



12 Ymrwymadau o dan brydlesi

Mae cyfanswm y taliadau lleiafswm o dan brydlesi gweithredol yn cael ei ddangos yn y tabl isod ar gyfer pob cyfnod.

Mae'r ymrwymadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:	31 Mawrth	31 Mawrth
Adeiladau	2020	2019
	£000	£000
O fewn blwyddyn	115	80
Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd	435	445
Ar ôl pum mlynedd	360	463
	910	988

Nid yw'r Comisiynydd wedi dechrau ymwneud ag unrhyw brydlesi cyllidol, unrhyw ymrwymadau o dan contract PFI, nac unrhyw gontractau nad oedd modd eu canslo ag ymrwymadau cyllidol.

13 Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd rhwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019: £0).

14 Offerynnau cyllidol

Oherwydd natur gweithgareddau'r Comisiynydd a'r modd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r Comisiynydd yn agored i lefel uchel o risg ariannol.

15 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Cytunwyd ar Femorandwm o Gydweithio, dyddiedig 5 Awst 2019, rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2019-20 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg arian cyllido o £3.157m gan Weinidogion Cymru (2018-19: £3.074m).

16 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol

Ni chafwyd digwyddiadau ers dyddiad y datganiad sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth y datganiadau ariannol hyn.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru

@ComyGymraeg
comisiynyddygyymraeg.cymru